Anecdotally WIHA is aware of alleged inconsistencies in HIW's approach to staffing levels in the NHS and independent sector.	Examine the evidence to determine whether inconsistencies do indeed exist.
When providers call HIW for advice the information they receive is not always consistent.	HIW to develop standard operating protocols for independent healthcare providers. This could include the use of FAQs and sharing messages between HIW and providers on the HIW website.
HIW give providers short time frames to provide information, which is not reciprocated.	HIW to develop standard operating protocols (as suggested above) and apply them to all healthcare providers.

## **9. HIW's strengths/aspects of the organisation that work well**

- 9.1. WIHA has referred to some of HIW's strengths above. In addition, WIHA would like to note that historically, HIW have developed their regulatory instruments for the independent healthcare sector in a fair and proportionate manner. The last review of Welsh independent healthcare standards maintained healthcare specific standards when in England general ones were developed – this was a mistake made by England. The standard HIW ones are proportionate and have a relevant context for the sector.

## **10. Concluding remarks**

- 10.1. If you have any queries about the content of this response, please do not hesitate to follow up with Sally Taber directly. As mentioned above, WIHA looks forward to presenting oral evidence to the Committee.
- 10.2. WIHA hopes that this response contributes to a positive way forward, as members have a genuine desire to support HIW in as open and constructive a way possible.

Sally Taber  
Secretariat to WIHA  
Centre Point, 103 New Oxford Street  
London WC1A 1DU  
T: 020 7379 7721  
M: 07885 740 500  
E: [sallytaber@independenthealthcare.org.uk](mailto:sallytaber@independenthealthcare.org.uk)



Welsh Independent Healthcare Association  
Cymdeithas Gofal Iechyd Annibynnol Cymru

High quality patient care  
Working in collaboration  
Investment in local economy

2012/2013 CREDENTIALS DOCUMENT



Tudalen 74

Gofalu am Gleifion dros Gymru



Investment in the latest equipment is essential for the care of our patients

The Mental  
Health sector  
provided  
**120,800**  
patient bed days in  
2012-2013

The acute  
sector provided over  
**16,000**  
in-patient/day case  
episodes  
in 2012-2013

Tudalen 75



WIHA members ensure their staff receive high quality training and development to ensure continuing high levels of care

## Introduction

The past year has seen a number of changes in the independent sector, both in terms of acute provision and mental health regulation. Nevertheless, and despite the challenging economic climate, many thousands of patients have used the services and treatments provided by independent hospitals in Wales.

Yet the understanding of the sector's scale and contribution remains somewhat variable across our communities. We employ more than 2,100 people and treat tens of thousands of patients every year, either as inpatients or on an outpatient basis. Furthermore, we are working more and more closely in an advisory and collaborative way with both the Welsh Government and Local Health Boards. Our collective activity therefore does make a real and meaningful contribution to both healthcare provision and the economy in Wales.

The Welsh Independent Healthcare Association (WIHA) was formed several years ago and aims to provide a single co-ordinated voice to facilitate consultation and share practice across the sector, helping to streamline communication and avoid repetition and engagement with a multiplicity of individual organisations.

We have compiled this booklet to provide some key facts and figures about the independent healthcare sector in Wales. A detailed summary is available of the result of the audit.

I hope you find this booklet helpful and please do contact me if you would like more information about the WIHA, its members, or the work of the independent health sector in Wales.

Thank you.

**Nicola Amery,  
Chairman WIHA**

Telephone: 029 2054 2635

Email: [nicola.amery@spirehealthcare.com](mailto:nicola.amery@spirehealthcare.com)

**Tudalen 76**

# About the Independent Health Sector

The WIHA is made up of:

- **6 acute independent hospitals**
- **6 mental health organisations (comprising 23 units)**

All of these hospitals collaborate with a wide range of stakeholders, including patients, consultants and their professional associations, regulatory bodies, intermediaries, Local Health Boards, GPs and community health services.

**The six acute independent hospitals which took part in this audit:**

- Treated more than 16,000 inpatient/day cases in the period 2012-13.
- Managed more than 26,500 bed days in the same period.

**The six mental health organisations (comprising 23 units):**

- Managed nearly 120,800 bed days, again in the same period
- All of the NHS funded bed days.

All WIHA members have a commitment to quality assurance as a key part of the delivery of safe and effective services to patients, and they have systems in place to identify the central cause of any issues raised which help to ensure that problems do not recur.

In addition, the sector makes a sizeable contribution to both Welsh employment and the Welsh economy by providing employment for a large number of people, while the vast majority of the goods and services are bought locally.

These include areas such as foodstuffs, supplies, engineering support, grounds maintenance, building and construction.



Our patients rate the level of care they receive extremely highly

**Tudalen 77**

A photograph of two surgeons in blue scrubs and white surgical masks performing a procedure on a patient. One surgeon is holding a small container with red liquid, while the other is using a tool. The patient's arm is visible with a blood pressure cuff. A surgical light fixture is positioned above them. In the background, there is medical equipment and a monitor.

Total staff in sector

**2,158**

Acute inpatients discharges

**6,084**

Acute outpatient attendance

**154,396**

Tudalen 78



## Ensuring the Quality of Clinical Care

Patients in the independent sector receive high standards of clinical care, and are treated in high-quality facilities by leading consultants using some of the latest technology.

WIHA members have stringent measures in place to combat Methicillin Resistant Staphylococcus Aureas (MRSA) and other hospital acquired infections.

As a result, no incidences of hospital acquired MRSA Bacteraemia or Clostridium Difficile were recorded in the WIHA acute hospitals completing the questionnaire in 2012/2013, and they managed a total of 26,905 bed days.


**97%**

of patients would recommend the hospital to others




# Summary of results of the audit

## number of beds



## number of patients treated




## levels of patient satisfaction

### and complaints

All the independent sector organisations in the audit have high rates of patient satisfaction. The average results in 2012/13 for the WIHA group were:

- **97%** of patients surveyed would recommend the hospital to others
- **99%** of patients rated the service as either excellent, very good, or good.
- **99%** of patients rated the cleanliness of the facility as excellent, very good or good.



## Quality assurance

The independent health sector receives very few complaints.

- In the mental health hospitals complaints represented just 0.1 per cent of patient days.
- The number of complaints made in the acute hospitals represented less than 0.1 per cent of all attendances.

**99%**  
rated the cleanliness  
of the hospital as  
excellent, very good  
or good

Complaints  
across the sector  
represented less than  
**0.1%** of all  
patient activity

**Tudalen 80**

Organisations who are members of WIHA and supplied data for this document:

**Acute Surgical:**

- BMI Werndale Hospital, Carmarthen
- Spire Yale Hospital, Wrexham
- Sancta Maria, Swansea
- Spire Cardiff Hospital, Cardiff
- St Josephs, Newport
- Vale Healthcare, Hensol

**Mental Health:**

- Partnership in Care, Llanarth Court Hospital, Raglan
- Ludlow Street Healthcare
- The Priory Group
- The Cambian Group
- Lighthouse Healthcare, Phoenix House
- Rushcliffe Independent Hospitals

Organisations not participating are Mental Health UK and Pastoral Healthcare

Produced by Welsh Independent Healthcare Association with grateful thanks to Lene Gurney, Independent Healthcare Advisory Services (IHAS) a division of the Association of Independent Healthcare Organisations (AIHO) ([lenegurney@independenthealthcare.org.uk](mailto:lenegurney@independenthealthcare.org.uk)).

Further information about the WIHA can be found at  
[www.independenthealthcare.org.uk/wiha](http://www.independenthealthcare.org.uk/wiha)

## Eitem 8

Mae cyfngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfngiadau ar y ddogfen hon

## Eitem 9

Mae cyfngiadau ar y ddogfen hon

## Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Dyddiad: 17 Hydref 2013

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd

Teitl: Craffu ar y Gyllideb Ddrafft

### Diben

Ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ar 8 Awst yn eu gwahodd i roi dystiolaeth ar gynigion eu Cyllideb Ddrafft ac yn gofyn iddynt gyflwyno papur mewn perthynas â'r Gyllideb Ddrafft.

### Cyflwyniad

Cyhoeddwyd y Gyllideb Ddrafft ar 8 Hydref 2013. Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch cynigion cyllidebol y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2014-15 a chynlluniau dangosol ar gyfer 2015-16.

### Trosolwg o'r Gyllideb

	2014-15	2015-16
Refeniw	£m	£m
Llinell Sylfaen DEL adeg y Gyllideb Derfynol 2012	5955.7	5955.7
Dyraniad y Prif Grŵp Gwariant	180.0	240.0
Trosglwyddiadau rhwng Prif Grwpiau Gwariant	(38.5)	(43.5)
Trosglwyddo i Adrannau Eraill o'r Llywodraeth	(0.6)	(0.6)
Addasiadau i'r Llinell Sylfaen		17.0
<b>DEL diwygiedig adeg y Gyllideb Ddrafft 2013</b>	<b>6096.6</b>	<b>6168.6</b>
Cyfalaf		
Llinell Sylfaen DEL adeg y Gyllideb Derfynol 2012	239.5	219.5
Dyraniad y Prif Grŵp Gwariant	42.5	15.0
<b>DEL diwygiedig</b>	<b>282.0</b>	<b>234.5</b>
<b>Cyfanswm y Prif Grŵp Gwariant HSSC</b>	<b>6378.6</b>	<b>6403.1</b>

Nid yw'r tabl yn cynnwys Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME), sydd y tu allan i Derfyn Gwariant Adrannol (DEL) Llywodraeth Cymru.

### Newidiadau dros y flwyddyn ariannol gyfredol

Mae'r newidiadau arfaethedig ar gyfer 2014-15 o'i gymharu â'r flwyddyn ariannol gyfredol a'r cynlluniau dangosol a gyhoeddwyd adeg y Gyllideb Derfynol ym mis Tachwedd 2012 fel a ganlyn:

	2013-14 adeg Cyllideb Atodol mis Mehefin 2013	Cynlluniau Dangosol 2014-15	Cyllideb Arfaethedig 2014-15	Newid o'r Gyllideb Atodol	Newidiadau o'r Gyllideb Ddangosol
Refeniw	5940.5	5955.7	6096.6	156.1	140.9
Cyfalaf	241.7	239.5	282.0	40.3	42.5

<b>Cyfanswm</b>	<b>6182.2</b>	<b>6195.2</b>	<b>6378.6</b>	<b>196.4</b>	<b>183.4</b>
-----------------	---------------	---------------	---------------	--------------	--------------

Mae newidiadau o gyllideb 2013-14 fel y cyhoeddwyd yng Nghyllideb Atodol mis Mehefin 2013 wedi'u crynhol isod:

#### Refeniw:

- Buddsoddiad ychwanegol o **£180.0 miliwn** yn unol â blaenoriaeth Llywodraeth Cymru i gefnogi'r GIG yng Nghymru
- Trosglwyddiad o **£(32.9) miliwn** i'r Prif Grŵp Gwariant Llywodraeth Leol mewn perthynas â chyllid ar gyfer y grant Anableddau Dysgu yn y setliad Grant Cynnal Refeniw.
- Trosglwyddiad o **£(3.2) miliwn** i'r Prif Grŵp Gwariant Llywodraeth Leol mewn perthynas â chyllid ar gyfer y Pecyn Camau Cyntaf yn y setliad Grant Cynnal Refeniw
- Trosglwyddiad o **£(2.4) miliwn** i'r Prif Grŵp Gwariant Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu mewn perthynas ag ad-dalu Cynlluniau Buddsoddi i Arbed
- £27.3 miliwn** yn llinell sylfaen 2014-15 fel y cytunwyd yng Nghyllideb Derfynol mis Tachwedd 2012 mewn perthynas yn bennaf â chyllid i'w drosglwyddo i setliad y Cynnal Refeniw
- £(0.6) miliwn** i'r Adran Iechyd mewn perthynas â'n cyfraniad at y Sefydliad Cenedlaethol Safonau a Rheolaethau Biologol
- £(12.2) miliwn** mewn perthynas ag addasiad i'r llinell sylfaen

#### Cyfalaf:

- Cyfalaf ychwanegol o **£42.5 miliwn**, sy'n cynnwys £19.5m ar gyfer y Gronfa Technolegau Iechyd a £23m i gefnogi blaenoriaethau yn y Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru.
- Arian nad yw'n rheolaidd o **£(2.1) miliwn** mewn perthynas â Chylch Caron ac Uned Iechyd Meddwl Diogelwch Isel Glanrhed

#### Newidiadau dros Gynlluniau Cyllideb Derfynol 2012

Mae'r newidiadau o'r cynlluniau dangosol ar gyfer 2014-15 a gyhoeddwyd adeg y Gyllideb Derfynol ym mis Tachwedd 2012 fel a ganlyn:

#### Refeniw:

- Buddsoddiad ychwanegol o **£180.0 miliwn** yn unol â blaenoriaeth Llywodraeth Cymru i gefnogi'r GIG yng Nghymru.
- Trosglwyddiad o **£(32.9) miliwn** i'r Prif Grŵp Gwariant Llywodraeth Leol mewn perthynas â chyllid ar gyfer y grant Anableddau Dysgu yn y setliad Grant Cynnal Refeniw.
- Trosglwyddiad o **£(3.2) miliwn** i'r Prif Grŵp Gwariant Llywodraeth Leol mewn perthynas â chyllid ar gyfer y Pecyn Camau Cyntaf yn y setliad Grant Cynnal Refeniw
- Trosglwyddiad o **£(2.4) miliwn** i'r Prif Grŵp Gwariant Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu mewn perthynas ag ad-dalu Cynlluniau Buddsoddi i Arbed
- £(0.6) miliwn** i'r Adran Iechyd mewn perthynas â'n cyfraniad at y Sefydliad Cenedlaethol Safonau a Rheolaethau Biologol

## Cyfalaf:

- Setliad o **£42.5 miliwn** sy'n cynnwys £19.5m ar gyfer y Gronfa Technolegau Iechyd a £23m i gefnogi blaenoriaethau yn y Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru.

Mae manylion yr holl drosglwyddiadau i'w gweld yn Atodiad A i'r papur hwn, gyda dadansoddiad hyd at lefel BEL yn Atodiad B.

## Sut y lluniwyd Cynigion y Gyllideb

Mae nodau a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gwasanaethau cymdeithasol i'w gweld yn Law yn Llaw at Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy a'r Rhaglen Lywodraethu. Mae penderfyniadau'r Llywodraeth ynghylch cyllidebau yn cael eu gwneud i gefnogi'r dyheadau yn y dogfennau hynny.

## Y GIG

Mae nod y GIG yn ehangach na rheoli afiechyd yn unig. Mae'n sylfaen ar gyfer ymyriadau eraill sy'n anelu at wella canlyniadau iechyd i bobl Cymru. Mae ein hymrwymiadau i'r GIG yn canolbwytio ar gynnal gwelliant mewn ansawdd a diogelwch gwasanaethau, cynnal mynediad i wasanaethau a phrofiadau'r claf, ac atal afiechyd a lleihau anghydraddoldebau iechyd i bawb. Rydym wedi gweld rhai gwelliannau ymarferol i effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y GIG, er gwaethaf yr hinsawdd ariannol heriol. Fodd bynnag, mae'r cynnydd yn y galw a'r pwysau yn ychwanegu at faint yr her sy'n wynebu'r GIG.

Pan gyhoeddwyd ein hymateb i Adroddiad Francis ym mis Gorffennaf, nodwyd ein bwriad i gynnal adolygiad o gyllideb y GIG. Mae wedi bod yn gyfle i fwrw golwg feirniadol ar y gwasanaeth iechyd a sicrhau ei bod yn y sefyllfa orau bosibl i ddarparu'r gofal diogel a thosturiol y mae cleifion yn ei haeddu.

Ffocws yr adolygiad fu canolbwytio ar wneud yn siŵr ei fod yn adlewyrchu'r gwensi sydd i'w dysgu o Adolygiad Adroddiad Francis, ei fod yn cydnabod y baich ychwanegol sy'n wynebu'r gwasanaeth iechyd, a bod ansawdd gofal a materion diogelwch y claf yn cydbwys o'n briodol â'r cyllidebau sy'n eu cynnal. Mae canlyniad y gwaith hwn wedi llywio cynigion y gyllideb a dyna pam ein bod yn rhoi cyllid ychwanegol o £180m yn 2014-15 a £240m yn 2015-16 i gefnogi'r GIG yng Nghymru.

Er y bydd y cynnydd mewn cyllid yn helpu'r GIG i ymateb i'r heriau sy'n wynebu'r gwasanaethau iechyd ar draws y DU a thu hwnt, yn sicr ni fydd yn lliniaru'r holl bwysau sy'n wynebu'r GIG. Dyna pam ein bod yn dal ati i hyrwyddo newid yn y GIG, er mwyn archwilio'r holl gyfleoedd ar gyfer arbedion effeithlonrwydd a rheoli ein costau fel y gallwn ddarparu gwasanaethau diogel a chynaliadwy yn erbyn gostyngiad rheolaidd yng nghyllideb Llywodraeth Cymru.

## Darparu Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy

Yn achos gwasanaethau cymdeithasol, rydyn ni'n parhau i ganolbwytio ar gyflawni'r ymrwymiadau yn nogfennau Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy a'r Rhaglen Lywodraethu. Er nad yw'r gyllideb yn ariannu gofal cymdeithasol yn uniongyrchol ledled Cymru, mae'n cefnogi'r trawsnewid polisi gofynnol. Mae hyn yn cynnwys Bil

pwysig gan Lywodraeth Cymru (y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)) a chyhoeddi Papur Gwyn ar Reoleiddio ac Arolygu. Elfen allweddol o'r Bil a'r Papur Gwyn fydd y costau pontio cysylltiedig ar gyfer darparwyr a'r gweithlu.

Rydyn ni'n gwybod bod yn rhaid i wasanaethau cymdeithasol roi blaenoriaeth i drawsnewid, a bod hyn yn cynnwys canolbwytio llawer mwy ar integreiddio iechyd a gwasanaethau cymdeithasol mewn meysydd allweddol. Heb drawsnewid o'r fath, ni fydd gwasanaethau'n gynaliadwy dros y blynnyddoedd i ddod. Rydyn ni'n disgwyll gweld llawer mwy o newid ac arloesi yn y ffordd y mae gwasanaethau cymdeithasol a'u partneriaid yn cyd-lunio atebion newydd gyda dinasyddion a chymunedau er mwyn amddiffyn a chynnal y rheini sydd angen cymorth fwyaf.

Mae elfen Gwasanaethau Cymdeithasol y Prif Grŵp Gwariant yn darparu cyllid ar gyfer nifer o feisydd allweddol. Mae'r gyllideb yn rhoi cymorth sylwedol i'r sector gwirfoddol yng Nghymru. Drwy gynllun Adran 64 a Grant Mudiadau Plant a Theuluoedd Ymddiriedolaeth Cronfa'r Teulu, rydyn ni'n cyfrannu £7.3 miliwn yn uniongyrchol i'r trydydd sector. Mae'r grantiau hyn yn cefnogi prosiectau a chapasiti yn y sector, sy'n ei alluogi i ddiwallu disgwyliadau Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy. Yn ogystal, defnyddir cyllid i gefnogi'r gwaith o reoleiddio a hyfforddi'r gweithlu gofal cymdeithasol (Cyngor Gofal Cymru £10m a Grant Datblygu'r Gweithlu Gofal Cymdeithasol £8.2m) i helpu i sefydlu trefniadau amddiffyn newydd a helpu i wella'r sector.

### Rhaglen Gyfalaf y GIG

Rydyn ni'n dyrannu cyfalaf ychwanegol o £58m, £43m yn 2014-15 a £15m yn 2015-16 i gefnogi nifer o brosiectau iechyd. Mae hyn yn cynnwys £38m yn unol â'r blaenoriaethau yn y Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru ac £20m yn 2014-15 ar gyfer y Gronfa Technolegau Iechyd.

Ar gyfer 2014-15, mae £23 miliwn yn gysylltiedig â'r cynlluniau buddsoddi canlynol:

- **£3 miliwn - Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg – Gweledigaeth Iechyd Abertawe.** Nod y cam ailddatblygu hwn yw cymryd lle'r hen adeiladau ar safle Ysbyty Treforys sy'n darparu gwasanaethau clinigol ac sydd bellach yn anaddas ar gyfer eu defnyddio, er mwyn darparu gwasanaeth mwy effeithlon.
- **£5 miliwn - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr - Gwaith ailddatblygu yn Ysbyty Glan Clwyd.** Bydd parhau â'r gwaith o ailddatblygu ac ailwampio Ysbyty Glan Clwyd yn galluogi'r Bwrdd Iechyd i ailgynllunio ac adleoli nifer o adrannau a gwasanaethau, felly'n gwella ansawdd gofal yr ysbyty.
- **£10 miliwn - Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro - Uned Iechyd Meddwl Oedolion yn Llandochau.** Bydd y datblygiad hwn yn cefnogi'r ddarpariaeth gynharach o gyfleusteriau a gwasanaethau gwell ar gyfer pobl â salwch meddwl yn Ne Cymru. Bydd y cynllun yn gwella ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd gofal cleifion mewnol drwy gyfleuster pwrpasol yn Ysbyty Llandochau.

- **£5 miliwn - Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.** Dyma yw cam olaf cynllun i ddarparu canolfan ragoriaeth ar gyfer gwasanaethau ysbifyt plant a fydd yn darparu gwasanaethau lleol i ddiwallu anghenion y boblogaeth yn Ne Cymru a thu hwnt.

## **Meisydd Diddordeb fel y nodwyd yn y Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor.**

### **Ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu**

#### **Gofal Iechyd ar gyfer y 21ain Ganrif**

Un o'r ymrwymiadau yn *Pump am Ddyfodol Tecach* yw **gwella mynediad i wasanaethau meddygon teulu** i bobl sy'n gweithio. Caiff hyn ei ddarparu gyda buddsoddiad parhaol o **£450m** yn y Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol. Mae gwaith graddol wedi digwydd i sicrhau bod yr ymrwymiad hwn yn llwyddiannus.

Roedd y cam cyntaf, yn ystod 2012-13, yn canolbwytio ar sicrhau bod capasiti digonol a bod apwyntiadau'n cael eu dosbarthu'n briodol yn yr oriau dan gcontract rhwng 8.00am a 6.30pm i fodloni anghenion pobl sy'n gweithio. Nid oes unrhyw gostau ychwanegol ynghlwm â'r cam cyntaf.

Mae'r ail gam, i'w gwblhau yn ystod 2013-14, yn ymwneud â chynnig mwy o apwyntiadau a gynllunnir y tu allan i'r oriau dan gcontract, ac yn canolbwytio'n bennaf ar fwy o apwyntiadau ar ôl 6.30pm neu apwyntiadau cynnar yn ôl y gofyn i fodloni anghenion pobl o fewn rheswm. Amcangyfrifir mai £1.8m yw'r gost ar gyfer cynyddu nifer y practisau sy'n cynnig Gwasanaeth Ychwanegol dan Gyfarwyddyd ar un neu ddwy noson yr wythnos i 30% o bractisau yn 2013-14, a £3.1m ar gyfer 50% o bractisau yn 2015-16. Y bwriad yw cwblhau'r ail gam hwn gan ddefnyddio'r cyllidebau cyfredol drwy adolygu gwariant presennol y Byrddau Iechyd ar wasanaethau ychwanegol cyfredol ac alinio hyn â blaenoriaethau allweddol fel mynediad i wasanaeth meddyg teulu.

Comisiynwyd gwaith pellach i ddatblygu model arloesol ar gyfer manteisio ar wasanaethau meddygon teulu ar benwythnosau, a disgwyli'r bydd apwyntiadau cynlluniedig ar gael ar benwythnosau i ddechrau yn ystod 2014-15.

Bydd y **Cynllun Anhwylderau Cyffredin** yn gwneud buddsoddiad o **£0.5m** yn 2014-15. Nod y cynllun yw gwella mynediad i driniaeth drwy annog cleifion i ddefnyddio'u fferyllfa leol i gael cyngor a thriniaeth ar gyfer amrywiaeth o anhwylderau cyffredin yn hytrach na mynd at eu meddyg teulu. Bydd hyn yn cyflymu mynediad, a thrwy ryddhau amser meddygon teulu, yn gwella mynediad ar gyfer cleifion sy'n dioddef cyflyrau mwy cymhleth. Lansiwyd y fenter mewn rhannau o Rhondda Cynon Taf a'r Gogledd-orllewin ym mis Hydref 2013. Bydd gwerthusiad trylwyr yn dylanwadu ar y penderfyniadau yngylch Gwasanaeth Anhwylderau Cyffredin cenedlaethol. Mae'r ymchwil yn awgrymu bod teuluoedd â phlant bach yn defnyddio gwasanaethau anhwylderau cyffredin yn rheolaidd. Ein nod yw ymchwilio i ba raddau y mae'n cefnogi teuluoedd a mesur effaith y gefnogaeth hon drwy'r gwerthusiad.

**Y rhaglen archwiliadau iechyd 50+** – Nod cyffredinol y rhaglen hon yw gwneud cyfraniad cadarnhaol at wella iechyd a lles pobl dros 50 oed drwy ddarparu gwybodaeth a chyngor o ansawdd uchel, hyrwyddo a galluogi newid ymddygiad lle bo'n briodol a hwyluso mynediad i wasanaethau priodol a ffynonellau cymorth. Mae £0.6m wedi cael ei darparu ar gyfer 2014-15 i gefnogi gweithgarwch ar draws holl gydrannau'r rhaglen wrth i ni symud tuag at weithredu'n llawn yn genedlaethol. Mae adnodd staff penodedig hefyd yn cael ei ariannu yn lechyd Cyhoeddus Cymru i arwain ar ddatblygu a chydgyssylltu'r rhaglen a'r pedair cydran.

Mae'r rhaglen yn cynnwys hunanasesiad holistaidd ar-lein y bydd yn unigolion yn ei gwblhau er mwyn cael adborth personol ar ystod o faterion penodol ynghylch eu ffordd o fyw a'u lles. Gyda chymorth dros y ffôn ac yn y gymuned gan weithwyr iechyd proffesiynol i annog cynifer â phosibl i gymryd rhan, caiff y gwaith hwn ei brofi yn y maes a'i werthuso o'r cychwyn, a defnyddir y canfyddiadau i lywio'r datblygiad parhaus y rhaglen, a cheisio cyfleoedd posibl i integreiddio â rhaglenni TGCh perthnasol eraill.

Mae lechyd Cyhoeddus Cymru yn arwain ar ddatblygu'r rhaglen gyffredinol, sy'n cynnwys cael cyfraniad priodol gan weithwyr proffesiynol, rhanddeiliaid a defnyddwyr gwasanaethau posibl yn y cam cynllunio a datblygu. Disgwylir dechrau rhoi'r rhaglen ar waith yn raddol ddiwedd 2013, gan ddechrau gyda phrofion mae cychwynnol mewn deg ardal clwstwr Cymunedau yn Gyntaf. Yna bydd cymorth hyrwyddo a chymunedol wedi'i dargedu yn cael eu gyflwyno'n raddol, cyn rhoi ar waith yn llawn yn genedlaethol yn 2014.

### Cynllun Gwên

Bydd ein rhaglen 'Cynllun Gwên' yn buddsoddi £3.7m yn 2014-15. Mae'r cyllid hwn yn rhan o'r dyraniad deintyddol rheolaidd sydd wedi'i neilltuo yn y Cam Gweithredu Cyflwyno Gwasanaethau GIG Craidd. Mae'r rhaglen yn gweithredu mewn ardaloedd o amddfadedd ledled Cymru gyfan. Mae'r rhaglen yn gweithio gyda 1,211 o feithrinfeidd ac ysgolion ledled Cymru. Mae cyfanswm o 78,350 o blant yn cymryd rhan yn y rhaglen frwsio ddyddiol (43.2% o'r holl plant rhwng meithrin a Blwyddyn 2 yng Nghymru). Mae arolwg deintyddol 2011/12 o blant 5 oed yn dangos gostyngiad o 6% yng nghyfran y plant sy'n dioddef pydredd dannedd yng Nghymru (o 47.6% yn 2007/08 i 41.4%). Mae lefelau clefydau deintyddol mewn plant yn gwella ym mhob grŵp cymdeithasol yng Nghymru. Nid oes tystiolaeth o gynnydd mewn anghydraddoldeb. Mae hyn yn cyferbynnu ag arolygon blaenorol lle'r oedd cysylltiad rhwng lefelau pydredd gwell a chynnydd mewn anghydraddoldeb.

### Camddefnyddio Sylweddau

Rydyn ni'n parhau i fuddsoddi £50m bob blwyddyn i gefnogi "Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed", ein Strategaeth 10 mlynedd i fynd i'r afael â'r niwed sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio cyffuriau, alcohol a sylweddau eraill yng Nghymru. Caiff y Strategaeth ei chefnogi gan Gynllun Cyflawni Camddefnyddio Sylweddau (2013-15), a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2013. Bydd y Strategaeth a'r Cynllun Cyflawni yn ymdrin ag ymrwymiadau cysylltiedig y Rhaglen Lywodraethu, fel lleihau nifer y marwolaethau cysylltiedig â chyffuriau ac alcohol yng Nghymru, mynd i'r afael â'r niwed a achosir gan gamddefnyddio cyffuriau ac alcohol a gwella'r canlyniadau triniaeth ar gyfer camddefnyddio sylweddau. Byddwn yn parhau i fonitro'n cynnydd yn erbyn y canlyniadau rydyn ni am ein gweld drwy'n buddsoddiad camddefnyddio

sylweddau drwy'r trefniadau llywodraeth rydyn wedi'u gosod ar gyfer cyflawni ac adroddiad blynnyddol y Rhaglen Lywodraethu.

### **Gofal Lliniarol**

Rydyn ni'n parhau i roi cyllid o **£6.6m** yn 2014-15 ar gyfer gofal lliniarol. £3.9m i Fyrddau lechyd Lleol ddarparu sesiynau clinigol, fferylliaeth gymunedol, swyddi arbenigol nysys clinigol, swyddi pediatreg arbenigol, swydd i gefnogi trosglwyddo o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion, cymorth gweinyddol a swyddi cofnodi data. Mae'r cyllid hwn hefyd yn cefnogi adolygiad gan gymheiriaid, a dwy system adborth ar gyfer cleifion a theuluoedd, sef Marw gydag Urddas ac iWantGreatCare. £2.5m i Hosbisau ddarparu gwasanaethau gofal lliniarol arbenigol, er enghraifft i sicrhau bod rota 24/7 o gyngor arbenigol ar ofal lliniarol ar gael, cefnogi nysio arbenigol, ariannu sesiynau ymgynghorwyr a chyflogi clercod cofnodi data i sicrhau bod prosesau gwybodaeth cadarn ar waith. £0.2m i Cruse ddarparu gwasanaeth profedigaeth ar gyfer plant ac oedolion ifanc.

### **Gwasanaeth 111 Galw lechyd Cymru**

Ein hymrwymiad yw adeiladu ar Iwyddiant Galw lechyd Cymru, a chynnig un rhif ar gyfer gofal iechyd y tu allan i oriau yng Nghymru, sy'n gysylltiedig â gwasanaethau lleol y tu allan i oriau. Y bwriad yw gwneud hyn drwy gyflwyno rhif 111 am ddim sydd wedi'i glustnodi gan Ofcom ar gyfer anghenion gofal iechyd brys (ond ddim yn argyfwng). Mae'r polisi ynglŷn â hyn yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd; bydd hyn yn cynnwys costau ond nid ydynt wedi'u pennu ar hyn o bryd.

### **AMD Gwlyb**

Rydyn ni'n parhau i ddarparu cyllid o **£10.8m** yn 2014-15 ar gyfer trin AMD Gwlyb gyda'r cyffur Lucentis. Pan fydd cyffuriau newydd ar gael sydd â'r potensial o driniaeth fwy effeithiol am gost is, bydd y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn lechyd a Gofal (NICE) a Grŵp Strategaeth Feddyginaethau Cymru Gyfan (AWMSG) yn eu gwerthuso.

### **Gofal llygaid**

Mae cyllid o **£3.1m** ar gyfer ar gyfer gwasanaethau gofal llygaid yng Nghymru. Mae'r cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio i gadw golwg drwy ganfod clefydau llygaid yn gynnar a rhoi cymorth i'r rheini â nam ar eu golwg lle nad yw triniaeth bellach yn briodol

### **Gwasanaethau Cymdeithasol**

O ran gwasanaethau cymdeithasol, mae'r Rhaglen Lywodraethu, gan adeiladu ar Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy: Fframwaith Gweithredu, yn llwyr gofnodi'n blaenoriaethau polisi hyd at 2016, ac mae'r gyllideb ac adnoddau eraill wedi cael eu had-drefnu'n llawn i gyflawni'r ymrwymiadau. Mae darpariaeth wedi'i chynnal yn y gyllideb o **£46m** yn 2014-15 a **£73m** yn 2015-16, sy'n adlewyrchu'r costau i wneud ein cyfraniad at ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu. Fodd bynnag, dylid nodi mai amcan cyffredin ar draws portffolios gweinidogol yw cyflawni llawer o'r ymrwymiadau hyn, gan gynnwys Trechu Tlodi a Chymunedau a Llywodraeth Leol.

Bydd y gyllideb Gwasanaethau Cymdeithasol yn codi gan **£27m** yn 2015-16, gyda'r cyllid o'r Gronfa Byw'n Annibynnol (ILF) yn cael ei drosglwyddo oddi wrth Lywodraeth y DU fel rhan o'r rhaglen diwygio lles. Dyma yw cost cefnogi'r 1,509 o dderbynwyr yr ILF yng Nghymru ar 31 Mawrth 2015. Yn fuan, byddwn yn lansio

ymgyngoriad i geisio safbwytiau ynghylch y trefniadau y dylai Llywodraeth Cymru eu rhoi ar waith i gefnogi derbynwyr y Gronfa Byw'n Annibynnol (ILF) yng Nghymru wedi iddi ddod i ben. Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud penderfyniad yng ngwanwyn 2014 fel bod trefniadau newydd ar waith o 1 Ebrill 2015 ymlaen.

Ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol, bernir bod cyllideb y Rhaglen fel y mae wedi'i gosod yn ddigonol i gyflawni ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu. Fodd bynnag, mae mwyafrif helaeth y costau sydd ynghlwm â darparu gwasanaethau cymdeithasol drwy'r Grant Cynnal Refeniw i awdurdodau lleol. Mae cyllideb y rhaglen gwasanaethau cymdeithasol yn yr Adran lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn llai na 4% o gyfanswm y gyllideb ar gyfer y sector drwy'r Grant Cynnal Refeniw.

Ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol, caiff y gwaith o gyflawni'r ymrwymiadau ei fonitro drwy'r rhaglen bum mlynedd strategol, Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy. Mae'r fframwaith trawsbynciol hwn yn cynnwys holl ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu a chyflwynir adroddiad misol ar gynnydd i'r Dirprwy Weinidog a'r Gweinidog. Ochr yn ochr â hyn, caiff adroddiad blynnyddol ar y canlyniadau sy'n gysylltiedig â'r Rhaglen Lywodraethu ei lunio ar gyfer yr Adran.

Cyflawnir rhai o ymrwymiadau penodol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol gyda chyllid penodedig drwy'r Prif Grŵp Gwariant:

Darperir cyllideb o **£1m** i gefnogi'r **Strategaeth Pobl Hŷn** a adnewyddwyd yn 2013. Caiff **£1.1m** ei neilltu ar gyfer y **Strategaeth Gofalwyr** sydd newydd ei hadnewyddu. Bydd **£5.6m** o'r BEL Gwasanaethau ar gyfer Plant yn cynnig cymorth cyllidebol penodol ar gyfer ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu ym meysydd **Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, Amddiffyn a Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd**.

### **Asesiadau o'r Effaith ar Ansawdd**

Wrth bennu'r cyllidebau ar gyfer 2014-15, mae'r effaith ar gydraddoldeb wedi cael ei hystyried ar gyfer yr holl grwpiau sy'n cael eu gwarchod yng Nghymru ac mae wedi helpu ein proses gwneud penderfyniadau. Drwy ei phroses cynllunio busnes fewnol, mae'r Adran lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn sicrhau bod modd cyflawni'n blaenoriaethau – fel y'u nodir yn y Rhaglen Lywodraethu – yn effeithiol ac yn unol â'r gyllideb.

Rydych wedi gofyn am y cysylltiad rhwng gwariant a'r canlyniadau sydd ynghlwm ag ymrwymiadau'n Rhaglen Lywodraethu – mae Adroddiad Blynnyddol y Rhaglen Lywodraethu yn adrodd ar hyn bob gwanwyn.

### **Darparu ar gyfer Deddfwriaeth**

Rydyn ni wedi ystyried yn ofalus y goblygiadau cost ar gyfer ein rhaglen ddeddfwriaethol.

Cafodd **Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru)** Gydsyniad Brenhinol ym mis Medi 2013. Tua £7.5m fydd cost gyffredinol gweithredu'r ddeddfwriaeth dros 10 mlynedd. Fodd bynnag, mae hyn yn cael ei wrthbwysio gan yr arbedion a ddaw am nad yw'r cleifion a gafodd drawsblaniad yn cael eu cyflwr wedi'i reoli'n feddygol. Rydym wedi

dyrannu **£1.9m** yn 2014-15 a **£2.8m** yn 2015-16 i gefnogi'r gwaith o weithredu'r Bil o'r Cam Gweithredu Cyflenwi Gwasanaethau GIG wedi'u Targedu i gefnogi gweithredu'r Bil.

Mae **Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)** yn cael ei graffu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar hyn o bryd. Fel y nodwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, disgwyllir y bydd effaith y Bil ar y system gyfan yn niwtral o ran cost yn y tymor hir ac wrth ystyried y manteision a ragwelir. Fodd bynnag, nodwyd rhai costau untrio trosiannol. Yn eu plith mae hyfforddiant, dosbarthu gwybodaeth a chostau gweithredu'r newidiadau i Lywodraeth Cymru. Mae **£2.1m** wedi cael ei ddarparu i gefnogi'r costau pontio sydd ynghlwm â Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy, a fydd yn cynnwys cymorth i allu cyflawni'r trefniadau pontio lleol a rhanbarthol.

Cyflwynwyd **Bil Cyllid Gwasanaeth lechyd Gwladol (Cymru)** gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ar 30 Medi 2013. Nod y Bil hwn yw rhoi mwy o hyblygrwydd i Fyrddau lechyd Lleol i fantoli'r gyllideb dros dair blwyddyn ariannol dreigl. Amcangyfrifir mai £0.121m yw'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r Bil. Mae hyn yn ymwneud yn bennaf â'r ffioedd archwilio ychwanegol y mae Swyddfa Archwilio Cymru yn eu codi. Mae fframwaith clir o reolaethau ariannol ac atebolrwydd wedi'u cynnwys o fewn y broses gynllunio a dwysau sy'n cefnogi'r Bil. Bydd hyn yn golygu ei bod yn ofynnol i Lywodraeth Cymru graffu'n fanylach ar gynlluniau'r Byrddau lechyd Lleol er mwyn cael sicrwydd eu bod yn drylwyr a bod modd eu cyflawni. Drwy hyn bydd modd cymeradwyo unrhyw addasiadau i derfynau adnoddau cyllidol.

### **Mesur lechyd Meddwl (Cymru) 2010**

Yn unol â Memorandwm Esboniadol/Asesiad Effaith Rheoleiddiol y Mesur lechyd Meddwl (Cymru) 2010 (y Mesur), mae **£5.5m** yn cael ei ddarparu i gefnogi gwasanaethau o dan Ran 1 - Gofal Cymorth lechyd Meddwl Sylfaenol Lleol ac Eiriolaeth lechyd Meddwl Annibynnol o dan Ran 4 y Mesur. Caiff y cyllid hwn ei drosglwyddo i ddyraniad refeniw craidd y GIG yn 2013-14 ac mae wedi'i gynnwys yn y dyraniad wedi'i neilltuo ar gyfer lechyd Meddwl.

Bydd y Ddyletswydd i Adolygu'r Mesur yn adrodd ar ddefnyddio'r gwasanaethau hynny ac mae **£0.1m** yn cael ei fuddsoddi i gomisiynu ymchwil annibynnol i gefnogi'r adolygiad. Hefyd darparwyd £0.3m fel rhan o'r gwariant a gynlluniwyd ar gyfer gweithredu i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a lledaenu'r adnoddau dysgu cynllunio Gofal a Thriniaeth gan Brifysgol Lincoln.

### **Mesur Gwneud lawn am Gamweddau'r GIG (Cymru) 2008**

Daeth Rheoliadau'r Gwasanaeth lechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac lawn) (Cymru) i rym ar 1 Ebrill 2011. Mae arian wedi cael ei ddyrannu ers 2010 i ddarparu ar gyfer y goblygiadau ariannol sydd ynghlwm â threfniadau gwneud yn iawn y GIG a wnaed o dan y rheoliadau hyn.

Ar gyfer 2010-11, dyrannwyd £1.8m ar sail y gost o roi'r trefniadau ar waith, oedd yn cynnwys hyfforddi staff y GIG, llunio canllawiau a dogfennau cyfathrebu cyhoeddus. Cynyddodd y gyllideb i £2.2m yn 2011-12. Y rhagdybiaeth oedd y byddai cyflwyno'r trefniadau gwneud yn iawn a chodi ymwybyddiaeth am y gost gyhoeddus cysylltiedig yn codi'r costau gwneud yn iawn i'r GIG.

Mae cyllidebau ar gyfer y dyfodol wedi cael eu dyrannu ar sail costau sy'n codi o flynyddoedd blaenorol. Dyrannwyd £1.3m ar gyfer 2012-2013 a 2013-2014 fel ei gilydd. Mae **£1.3m** wedi cael ei ddyrannu ar gyfer 2014 – 2015, ond gellid adolygu hyn gan ddibynnu ar y costau terfynol ar gyfer 2013 – 2014.

**Deddf Sgorio Hylendid Bwyd Cymru 2013** – Bydd y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau bwyd archwilio a rhoi sgoriau hylendid bwyd i fusnesau bwyd yn eu hardaloedd yn ôl mein prawf a gyhoeddir gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Bydd gweithredwr busnes sydd wedi cael ei sgorio yn cael sticer (neu sticeri) yn dangos ei sgôr hylendid, a bydd yn orfodol dangos hyn yn y busnes. Bydd hyn yn galluogi cwsmeriaid i wneud dewisiadau gwybodus ynghylch ble i fwyta neu brynu bwyd. Mae **£0.1m** ar gael yn 2014-15 i roi'r Bil hwn ar waith.

### Bil Iechyd y Cyhoedd

Rwyf wedi gofyn i swyddogion ymchwilio i'r posibilrwydd o ddatblygu cynigion deddfwriaeth mewn nifer o feysydd polisi iechyd y cyhoedd, a bydd gwybodaeth bellach ar gael pan fydd hynny'n briodol. Bydd ystyriaeth o oblygiadau ariannol y cynigion unigol yn rhan bwysig o'r gwaith datblygu hwn. Bydd angen talu am unrhyw waith datblygu ym mlwyddyn ariannol 2014-15 drwy gyllidebau cyfredol a bydd yn rhaid i hyn ystyried y canllawiau ynghylch costau diliys ar gyfer datblygu polisi a deddfwriaeth.

### Y Bil Tyllu Cosmetig

Mae swyddogion yn ymchwilio i'r opsiynau deddfwriaethol ar gyfer tyllu cosmetig. Byddai rhai mân oblygiadau ariannol i'r awdurdodau lleol y bydd gofyn iddynt orfodi'r ddeddfwriaeth newydd. Bach iawn fyddai'r costau hynny oherwydd bydd modd i awdurdodau lleol orfodi'r ddeddfwriaeth fel rhan o'u rhaglen gyfredol o archwiliadau rheolaidd o dyllwyr cosmetig. Efallai y bydd baich bach ychwanegol os bydd angen iddynt ymchwilio i gwynion unigol am dyllu dan oedran. Rhagwelir ar hyn o bryd y bydd awdurdodau lleol yn talu'r costau hyn drwy adnoddau cyfredol. Hefyd mae costau ynghlwym i Lywodraeth Cymru drwy ddatblygu'r polisi ac ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn ogystal â drafftio'r ddeddfwriaeth a mynd drwy'r prosesau deddfwriaethol. Bydd cyllid cyfredol yn talu'r costau hyn.

### Y Bil Rheoleiddio ac Arolygu

Mae cyllid o **£0.3m** wedi cael ei nodi ar gyfer ymgysylltu ynghylch y Bil Rheoleiddio ac Arolygu yn ystod 2013-14 yn y gyllideb a ddyrannwyd i gefnogi'r rhaglen newid Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy. Bydd gwaith ymgysylltu yn cael ei wneud yn 2014-15 ynghylch costau'r Bil, a gaiff eu talu drwy gyllidebau cyfredol.

### Deddfwriaeth Llywodraeth y DU

Mae swyddogion polisi DHSS yn monitro deddfwriaeth y DU ac yn cyfathrebu â chyd-swyddogion yn Whitehall ar 6 Bil y DU sydd gerbron y Senedd, 3 Bil Drafft y DU, ac 16 Bil Aelod Preifat a allai fod â goblygiadau polisi i lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru, gan gynnwys:

- y Bil Gofal,
- y Bil Plant a Theuluoedd,
- y Bil Carchardai (Profion Cyffuriau),
- Biliau mewn perthynas â gyrru o dan dylanwad diod neu gyffuriau.

Nes bod darpariaethau terfynol Bil sy'n effeithio ar Gymru yn hysbys, nid oes modd nodi goblygiadau ariannol pendant. Nod allweddol swyddogion polisi yw sicrhau nad yw unrhyw ddeddfwriaeth y DU yn cael effaith andwyol ar Gymru a Gweinidogion Cymru ac y manteisir ar unrhyw gylleoedd ar gyfer deddfwriaeth i Gymru.

### **Gwariant Ataliol – Iechyd**

Yn y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, mae llawer o gyllidebau wedi'u hanelu at wariant ataliol e.e. iechyd meddwl/lles a chamdefnyddio sylweddau. Mae nifer o gyllidebau penodol sy'n canolbwytio ar atal problemau a lleddfu'r galw ar wasanaethau yn y dyfodol. .

### **Ymgyrch Iechyd y Cyhoedd – Newid am Oes**

Cytunwyd ar gyllid o **£0.3m** ar gyfer 2014-15 i ddatblygu'r rhaglen Newid am Oes. Mae gwariant ar Newid am Oes yn ymdrin â gordewdra a chamdefnyddio sylweddau, ac mae dros 76,000 wedi cofrestru i dderbyn gwybodaeth.

Mae **Law yn Llaw at Iechyd**, y weledigaeth 5 mlynedd ar gyfer y GIG yng Nghymru, yn canolbwytio o'r newydd ar atal. Mae hyn yn seiliedig ar Ein Dyfodol Iach, fframwaith strategol iechyd y cyhoedd Cymru, oedd yn cydnabod yr angen i iechyd a gwasanaethau cymdeithasol roi mwy o bwyslais ar atal ac ymyrraeth gynnar, a lle bo'n briodol, i unigolion gymryd mwy o gyfrifoldeb am eu hiechyd a lles eu hunain a'u teuluoedd.

Yn unol â'r gwaith strategol hwn, rydyn ni wedi pennu set gynhwysfawr o fentrau sy'n cydblethu er mwyn hyrwyddo a diogelu iechyd gydol oes a galluogi pobl i wneud y mwyaf o'u bywydau. Caiff y mentrau hyn eu haddasu a'u mireinio wrth i anghenion, cyfleoedd ac ymddygiad newid. Gwelir hyn drwy'r adolygiad o rhaglenni gwella iechyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru. Hefyd, rydyn ni'n ceisio ategu'n mentrau gyda gwaith newydd lle mae tystiolaeth yn cefnogi hyn.

Mae'n mentrau hefyd yn cyfrannu at agendâu ehangach Llywodraeth Cymru, yn enwedig trechu tlodi (gan gynnwys camau i leihau beichiogrwydd yn yr arddegau), hybu twf a swyddi (gan gynnwys Cymru Iach ar Waith) a rhoi dechrau da mewn bywyd i blant (gan gynnwys rhaglenni imiwneiddio).

Mae cyfran sylweddol o'r gwariant atal yn ariannu Noddi Cyrff Iechyd Cyhoeddus. Mae hyn yn darparu'r dyraniad cyllid craidd ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru a chyllid cyfyngedig ar gyfer gwasanaethau arbenigol a ddarperir gan Public Health England.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn darparu ystod o wasanaethau iechyd y cyhoedd sy'n ymdrin â gwella a diogelu iechyd, gwybodaeth ac ymchwil iechyd y cyhoedd, a rhaglenni sgrinio cenedlaethol ar gyfer pobl Cymru. I'r perwyl hwn, mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru rôl allweddol i'w chwarae o ran helpu i gyflawni llawer o'r camau gweithredu ynghylch gwella iechyd y cyhoedd a lleihau anghydraddoldebau mewn disgwyliad oes iach.

Mae **rhaglenni sgrinio** yn fentrau pwysig ym maes iechyd y cyhoedd oherwydd eu bod yn galluogi canfod a thrin problemau iechyd posibl yn gynnar, ac fe'u cynigir i bawb sy'n gymwys yng Nghymru. Mae tua 45% o gyllideb graidd Iechyd Cyhoeddus

Cymru yn cael ei gwario ar wasanaethau sgrinio (sef tua **£34.5m** yn 2013-14). Amcangyfrifon o'r costau a roddir oherwydd nad yw cyllid craidd lechyd Cyhoeddus Cymru wedi'i neilltuo, sy'n rhoi hyblygrwydd i'r corff ddyrannu adnoddau yn ôl angen. Uchafbwyntiau allweddol:

- Ym mis Rhagfyr 2012, Bron Brawf Cymru oedd y gwasanaeth sgrinio am ganser y fron cyntaf yn y DU i fynd yn gwbl ddigidol, gan ddarparu profiad a gwasanaeth sgrinio gwell i fenywod yng Nghymru.
- Roedd hefyd yn dda gweld, ym mis Mehefin, gwasanaeth sgrinio yn cael ei gynnig i rieni babanod newydd-anedig ar gyfer Anhwylderau y Crymangelloedd fel rhan o'r rhaglen Sgrinio Smotyn Gwaed Newydd-anedig.
- Ym mis Mai 2013, lansiwyd y rhaglen sgrinio Ymlediadau Aortig Abdomenol. Mae rhaglen sgrinio Ymlediadau Aortig Abdomenol Cymru yn cynnig y gwasanaeth i ddynion 65 oed yng Nghymru. Dyma'r rhaglen sgrinio gyntaf yng Nghymru yn arbennig i ddynion.
- Rhoddiwyd newidiadau polisi ar waith i'r rhaglen sgrinio serfigol ym mis Medi 2013. O'r dyddiad hwn, caiff menywod 25 oed a throsodd eu gwahodd (yn hytrach nag 20 oed) a gwahoddir menywod 50+ i gael eu sgrinio bob 5 mlynedd (bob 3 blynedd gynt). Mae'r newidiadau polisi hyn yn gwella'r gwasanaeth ac yn seiliedig ar y dystiolaeth ddiweddaraf, sy'n awgrymu y gallai sgrinio menywod 20-24 oed achosi mwy o niwed nag o les, a bod sgrinio menywod 50+ oed bob 5 mlynedd yn eu hamddiffyn llawn cystal â'u sgrinio bob 3 blynedd.
- Mae'r gwasanaeth sgrinio clyw babanod yn parhau i gynnig gwasanaeth rhagorol. Ddiwedd 2012-13, roedd 99.6% o'r holl fabanod cymwys wedi ymuno â'r rhaglen a 100% o'r rheini wedi'i chwblhau. Nid yw'r cyfraddau ar gyfer defnyddio'r rhaglenni sgrinio serfigol a chanser coluddion cystal ag y gallent fod. Disgwylir y bydd codi'r oedran sgrinio serfigol i 25 oed yn yr hydref 2013 yn cael effaith gadarnhaol ar y gyfradd ddefnyddio.

Bydd y rhaglenni sgrinio cenedlaethol yn rhan o fframwaith ansawdd a chyflawni lechyd Cyhoeddus Cymru. Adroddir arnynt mewn cyfarfodydd ansawdd a chyflawni chwarterol ac yng nghyfarfod y bwrdd cyflawni mewnol. Adroddir ar y rhaglenni yng nghyfarfodydd chwemisol y Cyd-dîm Gweithredol. O ran gwerth am arian, mae rhaglenni sgrinio yn rhan allweddol o adolygiad blynnyddol Swyddfa Archwilio Cymru ar lechyd Cyhoeddus Cymru. Roedd yr adolygiad diweddaraf yn canolbwytio'n benodol ar drefniadau ar gyfer defnyddio adnoddau'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus

Mae gan **Cymru Iach ar Waith** gyllid o **£0.2m** – Mae helpu pobl i gael a chadw gwaith yn dda i'w hiechyd ac mae nifer o raglenni ar gael i'w helpu. Mae rhaglen Cymru Iach ar Waith yn parhau i gael ei datblygu ac mae'r camau gweithredu allweddol diweddar yn cynnwys:

- rhoi cyngor a chymorth i bob math o gyflogwyr ym mhob sector i wella iechyd a lles yn y gwaith;

- integreiddio ac ad-drefnu gwefannau presennol;
- datblygu cyngor ar y we i gefnogi unigolion mewn gwaith sydd â phroblem iechyd;
- cyflwyno hyfforddiant sy'n cael ei achredu a'i ddarparu gan RCGP i helpu meddygon teulu gyda'r nodyn ffitrwydd a'r ymgynghoriad ffit i weithio.

Y cam nesaf yw ymchwilio i gyfleoedd i ddefnyddio rhaglen Cymru lach ar Waith a phrosiectau perthnasol Cronfa Gymdeithasol Ewrop i ddatblygu cais strategol i'r Gronfa yn 2014. Yr weledigaeth yw creu gwasanaeth integredig sy'n helpu i gadw pobl â phroblem iechyd mewn gwaith; helpu pobl sydd ar absenoldeb salwch i dychwelyd i'r gwaith; a chefnogi pobl sydd allan o'r gwaith â phroblem iechyd i ddychwelyd i'r gwaith.

**Rhaglen y Ddeddf Gofal Gwrthgyfartal** – Mae Rhaglen y Ddeddf Gofal Gwrthgyfartal yn cefnogi cynnydd cyflymach mewn dwy ardal (Aneurin Bevan a Chwm Taf) lle mae heriau cymdeithasol-economaidd amlwg. Bydd y gwaith hwn yn profi modelau arloesol ar gyfer gwasanaethau sylfaenol a chymunedol i sicrhau cynnydd cyflymach i leihau annhegwyd. Mae'r Byrddau'n cynnal dadansoddiadau lleol manwl ar hyn o bryd, gan ganolbwytio i ddechrau ar reoli clefyd cardiofasgwlaidd.

**Cynllun Gweithredu ar Reoli Tybaco/ Cynllun Cyflawni ar Reoli Tybaco**  
Mae cyllid o £1.0m yn y Cam Gweithredu Hyrwyddo Gwella lechyd a Gweithio lach yn ymdrin ag ymgyrchoedd cyfryngau a ariennir gan Lywodraeth Cymru, cyllid grant i ASH Cymru a datblygu deddfwriaeth. Hefyd, mae lechyd Cyhoeddus Cymru a'r Byrddau lechyd Lleol yn ariannu gwasanaethau atal a rhoi'r gorau i smygu.

Rydyn ni newydd gyflwyno targed Haen 1 i Fyrddau lechyd Lleol ar roi'r gorau i smygu. Bellach mae angen iddynt ddangos bod 5% o'u poblogaeth sy'n smygu wedi ceisio rhoi'r gorau iddi gan ddefnyddio gwasanaeth at y diben, a bod 40% ohonynt wedi llwyddo i roi'r gorau iddi ar ôl 4 wythnos.

Mae arian yng nghyllideb graidd lechyd Cyhoeddus Cymru i redeg Dim Smygu Cymru, y gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer rhoi'r gorau i smygu. Mae lechyd Cyhoeddus Cymru hefyd yn gwneud gwaith peilot ar smygu yn ystod beichiogrwydd er mwyn nodi'r arfer mwy effeithiol i helpu smygwyr beichiog i roi'r gorau iddi. Mae gwasanaethau fferyllol hefyd yn cynnig gwasanaeth rhoi'r gorau i smygu. Mae'r rhaglen Treial Rhoi'r Gorau i Ysgwy mewn Ysgolion yn cael ei gyflwyno mewn ysgolion uwchradd yng Nghymru. Mae'r rhaglen hon yn seiliedig ar dystiolaeth i annog pobl ifanc i beidio â dechrau smygu, ac mae eto'n dod o gyllideb graidd lechyd Cyhoeddus Cymru.

Am y rhesymau hyn, mae lleihau nifer y smygwyr a'r nifer o bobl sy'n dod i gysylltiad â mwg ail-law yn flaenoriaeth yn *Ein Dyfodol lach*, y fframwaith strategol iechyd cyhoeddus ar gyfer Cymru; ac yn *Canlyniadau lechyd Tecach i Bawb sy'n pennu strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer lleihau anghydraddoldebau iechyd*. Mae hefyd yn cyfrannu at strategaethau eraill, e.e. y strategaeth gwasanaethau mamolaeth a'n cynllun gofal llygaid newydd.

Mae'r Bwrdd Cyflawni ar Reoli Tybaco yn cwrdd bob chwarter. Ei rôl yw gyrru ymlaen, cefnogi a goruchwyllo hynt y Cynllun Cyflawni ar Reoli Tybaco, sy'n pennu'r cyfrifoldebau a'r amserlenni ar gyfer pob cam gweithredu yng Nghynllun Gweithredu Cymru ar Reoli Tybaco.

Caiff ymdrechion i roi'r gorau i smygu eu monitro bob chwe mis drwy'r targedau Haen 1 ar gyfer Byrddau lechyd. Caiff llwyddiant o ran gostwng lefelau smygu ymssg oedolion ei fesur drwy Arolwg lechyd Cymru, sy'n cyflwyno adroddiad blynnyddol. Caiff smygu ymssg pobl ifanc 11-15 oed ei fesur bob pedair blynnyddol drwy'r astudiaeth Ymddygiad lechyd mewn Plant Oedran Ysgol. Caiff eitemau unigol yn y cynllun eu gwerthuso ar wahân fel sy'n briodol, e.e. ymgyrch smygu mewn ceir Cychwyn Iach Cymru.

### **Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser Law yn Llaw at lechyd**

Nid oes cyllideb benodol wedi'i dyrannu i'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser nac i unrhyw gynllun cyflawni ar gyfer unrhyw wasanaeth penodol. Mae'r Cynlluniau yn rhoi ffocws i Fyrddau lechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau wneud penderfyniadau ynghylch y gwasanaethau y maent yn eu darparu. Mae cyllid o **£0.4m** yn y Cam Gweithredu Cyflenwi Gwasanaethu wedi'u Targedu y GIG yn ymdrin â chostau gweinyddol y cynlluniau a nifer o brosiectau penodol bach. Er enghraifft, arian cyfatebol o £25,000 ar gyfer Arolwg Profiad Cleifion Canser Cymru Gyfan

Nid yw'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Canser yn ymwneud ag adnoddau newydd ond yn hytrach yn canolbwytio gweithgarwch ar wella canlyniadau i gleifion. Mae'r camau gweithredu yn y cynllun yn canolbwytio'n arbennig ar atal a diagnosis cynnar. Er enghraifft, mae gweithgarwch i atal smygu eisoes wedi'i nodi yn y ddogfen hon; mae'r cynllun yn atgyfnerthu'r negeseuon hynny

Mae'r Cynllun Cyflawni, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2012, yn dangos y disgwyliadau ar ofal cancer y GIG erbyn 2016. Mae'r ddogfen yn fyr yn fwriadol er mwyn canolbwytio ar feysydd heriol. Mae'n nodi'r canlyniadau rydyn ni'n disgwyli eu gweld a chyfres o fesurau perfformiad i fonitro cynnydd o ran gwella canlyniadau. Mae'r Cynllun Cyflawni yn nodi camau gweithredu i wella canlyniadau mewn 5 maes allweddol: atal cancer; canfod cancer yn gyflym; darparu triniaeth a gofal cyflym ac effeithiol; diwallu anghenion pobl; a gofal diwedd oes. Caiff canlyniadau yn y meysydd hyn eu cefnogi gan gamau gweithredu i wella gwybodaeth a thargedu ymchwil.

Caiff 50 o bobl ddiagnosis o ganser bob dydd yng Nghymru, a thua 17,000 bob blwyddyn. Mae cyfran uwch o bobl yn marw o ganser yng Nghymru o gymharu â gweddill y DU. Mae'r gyfradd marwolaethau cancer wedi'i safoni yn ôl oedran yng Nghymru yw 183 o farwolaethau fesul 100,000 o bobl, o'i gymharu â 176 o farwolaethau fesul 100,000 o bobl yn y DU. Yn 2011-12, roedd cancer yn cyfrif am 6.6% o holl wariant y GIG yng Nghymru, sef £356.8 miliwn. Mae felly'n briodol ein bod yn rhoi ffocws i Fyrddau lechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau ar atal cancer.

Lluniwyd adroddiad blynnyddol ym mis Rhagfyr 2012 a chyhoeddir adroddiad pellach eleni. Drwy wneud hyn, byddwn yn monitro cynnydd yn erbyn y cynllun. Bydd cyhoeddi data yn dryloyw a chynlluniau'r Byrddau lechyd Lleol a'r Ymddiriedolaethau hefyd yn caniatáu i'r rheini sydd â buddiant mewn cancer asesu cynnydd a rhoi her.

## Rhagleni brechu ac imiwneiddio

Darperir cyllid o £7.6m ar gyfer y rhagleni hyn yn 2014-15 ac mae wedi'i gynnwys yn y Cam Gweithredu Hybu Gwella lechyd a Gweithio'n lach ar gyfer imiwneiddio, yn ogystal â darparu cyllid drwy ddyraniadau blynnyddol y Byrddau lechyd Lleol. Yn ogystal â'r rhagleni cyfredol, mae'r Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu wedi argymhell cyfres o newidiadau i'r rhagleni brechu ac imiwneiddio cenedlaethol, e.e.

- **Llid yr Ymennydd C:** O fis Mehefin 2013, mae newidiadau wedi'u gwneud i'r drefn bresennol ar gyfer rhoi'r brechlyn MenC. Nid yw'r ail ddos sefydlu sy'n cael ei roi yn bedwar mis ar hyn o bryd yn cael ei roi bellach, ac yn hytrach rhoddir dos atgyfnerthu yn ystod glasoed.
- **Rotafeirws:** O fis Gorffennaf 2013, bydd brechlyn i amddiffyn babanod rhag rotafeirws yn cael ei gyflwyno yn y drefn imiwneiddio i blant.
- **Yr eryr:** O fis Medi 2013, bydd rhaglen frechu rhag yr eryr yn cael ei chyflwyno ar gyfer pobl 70 oed a rhaglen 'dal i fyny' ar gyfer pobl 71 i 79 oed. Mae'r rhaglen 'dal i fyny' yn digwydd yn raddol pan fydd y brechlyn ar gael, gan ddechrau gyda phobl 79 oed.
- **Ffliw mewn Plentyndod:** Yn yr hydref 2013, bydd y rhaglen imiwneiddio rhag y ffliw yn cael ei hymestyn i gynnwys plant 2 a 3 oed a phlant ym mlwyddyn 7 gan ddefnyddio brechlyn chwistrell trwyn. Dyma'r cam cyntaf dros nifer o flynyddoedd i gyflwyno trefn imiwneiddio rhag y ffliw yn raddol ar gyfer yr holl blant rhwng dwy ac 16 oed.

Bydd costau'r rhagleni yn dibynnu ar faint sy'n eu cymryd. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ariannu hyn yn llawn

## KALYDECO

Ym mis Mai eleni, rhoddais gymeradwyaeth lawn i ddefnyddio Kalydeco, triniaeth arloesol drwy'r geg ar gyfer ffibrosis systig. Ar hyn o bryd, mae 13 o gleifion yng Nghymru sy'n gymwys i gael y driniaeth, a fydd yn costio £0.180m fesul claf fesul blwyddyn.

## Gwariant Ataliol a Gwasanaethau Cymdeithasol

O fewn Gwasanaethau Cymdeithasol, mae'n polisi yn seiliedig ar les pobl. Diben y diffiniadau lle a'r dyletswyddau cyffredinol yw hybu lles pobl, a hanfod hynny yw atal problemau. Os caiff canlyniadau lles eu cyflawni, bydd hyn yn dileu neu'n oedi'r angen am wasanaethau. Mae portffolio'r rhaglen Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnwys ystod o weithgareddau sy'n diwallu'r angen sydd wedi'i nodi ac sy'n ceisio lleihau'r galw am wasanaethau yn y dyfodol.

Caiff nifer o fentrau ataliol penodol yn y sector, fel ailalluogi, eu hariannu drwy'r Grant Cynnal Refeniw i awdurdodau lleol, neu grantiau penodol fel Buddsoddi i Arbed neu Cefnogi Pobl. Mae'r Adran yn cefnogi'r datblygiadau hyn drwy ei gwaith arwain a rhagleni, ond nid yw'n eu hariannu'n uniongyrchol.

Cynllun statudol yw'r **Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd** (IFSS) sy'n helpu rhai o'r plant a theuluoedd mwyaf agored i niwed yng Nghymru. Mae'r gwasanaethau'n canolbwytio ar deuluoedd lle mae gan y rhieni broblemau penodol a heriol sy'n effeithio ar les eu plant. Dechreuodd y timau IFSS eu gwaith ar 1 Medi 2010 ac erbyn 2014 byddant yn gweithredu ledled Cymru. Rydyn ni wedi gwneud buddsoddiad ariannol sylweddol a buddsoddiad arall i feithrin capaciti a sgiliau y timau IFSS eu hunain, yn ogystal â hyfforddi gweithwyr proffesiynol ac eraill ar draws eu partneriaeth mewn technegau allweddol. Mae'r technegau hyn yn helpu'r gweithwyr proffesiynol i ymgysylltu'n well â theuluoedd a mynd i'r afael â'r ethos o weithio gyda chryfderau'r teuluoedd i'w grymuso i wneud newidiadau i'w bywydau. Yn 2013-14, pan fydd yr IFSS wedi'u cyflwyno'n llawn, bydd dros **£4.5m** ar gael i awdurdodau lleol (a fydd yn gorfod cytuno ar eu gwariant gyda'u Byrddau lechyd Lleol). Cytunir ar y proffiliau cyllid drwy'r Byrddau IFSS rhanbarthol statudol i gefnogi o leiaf 10 o dimau IFSS statudol ledled Cymru. Disgwylir cadw'r lefel o gyllid ar gyfer 2014-15 a 2015-16, sydd yn y Cam Gweithredu Gwasanaethau Cymdeithasol Plant.

Mae'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhoi cymorth sylweddol i'r sector gwirfoddol yng Nghymru. Drwy Grant Mudiadau Plant a Theuluoedd a chynllun Adran 64 Ymddiriedolaeth Cronfa'r Teulu, rydyn ni'n cyfrannu £7.3 miliwn yn uniongyrchol i'r trydydd sector. Mae'r grantiau hyn yn cefnogi prosiectau a chapasiti o fewn y sector, yn aml yn helpu'n uniongyrchol y rhai mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas. Er enghraifft:

- Mae Ymddiriedolaeth Cronfa'r Teulu, sy'n cael cyllid blynnyddol o **£2.6m** o'r Cam Gweithredu Gwasanaethau Cymdeithasol Plant, yn rhoi grantiau a gwybodaeth mewn perthynas â gofal plant, gan gynnwys gwyliau, trafnidiaeth, offer i'r cartref a gwensi gyrru ar gyfer teuluoedd plant ag anabledd dirrifol hyd at 18 oed.
- Mae'r Grant Mudiadau Plant a Theuluoedd (**£1.4m** o'r Cam Gweithredu Gwasanaethau Cymdeithasol Plant) yn cefnogi amrywiaeth o fudiadau a mentrau. Mae enghreiffiau'n cynnwys arian i Voices From Care Cymru sy'n rhoi cymorth i blant sy'n derbyn gofal a phobl sy'n gadael gofal, a'r Rhwydwaith Maethu sy'n cefnogi ac yn cynghori gofalwyr maeth ledled Cymru.
- Mae'r cynllun grant Adran 64 (**£3.3m** o'r Cam Gweithredu Oedolion a Phobl Hŷn) yn cefnogi nifer fawr o fudiadau trydydd sector sy'n helpu pobl sy'n agored i niwed yng Nghymru, gan gynnwys Anabledd Cymru, Mencap Cymru a Gwasanaeth Asesu Gyrru a Symudedd Cymru. Un enghraift o'r cymorth cymunedol y mae'n ei gynnig yw'r cyllid ar gyfer gweithiwr eirioli rhan amser ar gyfer y rheini â nam ar eu clyw drwy Gymdeithas Pobl Fyddar Prydain.

Hefyd, drwy roi ar waith y **Cynllun Gweithredu Strategol Anhwylderau ar y Sbectwm Awtistig**, caiff (**1.9 miliwn** o'r Cam Gweithredu Oedolion a Phobl Hŷn) ei ddarparu i gefnogi plant ac oedolion ag awtistiaeth yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys cyllid ar gyfer prosiectau rhanbarthol bach ar lefel gymunedol a chymorth i oedolion â syndrom Asperger.

Hefyd, mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i barhau i weithio i amddiffyn a diogelu'r rheini mewn cymdeithas sydd fwyaf agored i niwed. Mae'n cyllideb ddiogelu (£0.7m) yn y Cam Gweithredu Gwasanaethau Cymdeithasol Plant yn cefnogi amrywiaeth o fentrau i gryfhau trefniadau ledled Cymru mewn meysydd fel esgeulustod, masnachu mewn plant, camfanteisio'n rhywiol ar blant ac adolygiadau marwolaethau plant. O fewn cyllideb wastad ar gyfer 2014-15, bydd y gwaith hwn yn

parhau i gael ei ymestyn wrth i ni geisio fframwaith cyfatebol ar gyfer amddiffyn oedolion, gan gynnwys rhoi adolygiadau arferion oedolion ar waith.

### **Trefniadau cyllid ar gyfer Byrddau lechyd Lleol**

Yn y tablau BEL yn Atodiad B, mae llinell gyllideb Cyflenwi Gwasanaethau Craidd y GIG yn dangos cyllideb o £5.3bn ar gyfer 2013-14. Ac eithrio rhai mân addasiadau, dyma yw'r brif gyllideb dyrannu refeniw a roddir i Fyrddau lechyd ar ddechrau'r flwyddyn ariannol. Mae'r dyraniad yn rhoi cyllid ar gyfer:

- Gwasanaeth Ysbytai ac lechyd Cymunedol (HCHS) a dyraniad dewisol refeniw Presgripsiynu.
- Gwasanaethau HCHS gwarchodedig ac wedi'u neilltuo
- Dyraniad y Contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol
- Dyraniad y Contract Fferylliaeth Gymunedol
- Dyraniad y Contract Deintyddol

Nid yw'r gwaith wedi'i gwblhau o ddyrannu cyllideb ddrafft 2014-15 rhwng yr amryw ffrydianu cyllid uchod. Fodd bynnag, er mwyn rhoi syniad i'r Pwyllgor o sut caiff y gyllideb ei dosbarthu, mae'r tabl isod wedi cael ei atgynhyrchu o ddyraniad 2013-14.

	Dyraniad Dewisol a Phresgripsiynu	Dyraniad wedi'u Neilltuo	Contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol	Contract Fferylliaeth	Contract Deintyddol	Cyfanswm
	£m	£m	£m	£m	£m	£m
Bwrdd lechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg	614.5	156.7	70.4	28.5	25.4	895.5
Bwrdd lechyd Aneurin Bevan	696.9	127.2	80.7	30.5	25.5	960.8
Bwrdd lechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	829.5	182.2	110.5	32.5	25.9	1180.1
Bwrdd lechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	503.5	107.2	60.4	21.6	22.9	715.6
Bwrdd lechyd Cwm Taf	372.7	79.6	43.1	18.0	10.8	524.2
Bwrdd lechyd Hywel Dda	440.2	119.5	57.7	20.3	16.2	654.0
Bwrdd lechyd Powys	152.2	38.8	29.6	4.6	5.3	230.5
<b>Cyfanswm</b>	<b>3609.5</b>	<b>811.2</b>	<b>452.4</b>	<b>156.0</b>	<b>132.0</b>	<b>51610.0</b>

## **Adolygiad o Ddyrannu Adnoddau**

Defnyddiwyd fformiwlau anghenion uniongyrchol 'Townsend' rhwng 2003-04 a 2007-08. Yn ystod y cyfnod hwn, cynyddodd ein cyllideb bob blwyddyn. Gwnaed addasiadau cyllid dim ond i elfen twf y gyllideb a gafodd pob Bwrdd lechyd. Nid oes unrhyw gynnydd pellach wedi bod ers ffurio'r 7 Bwrdd lechyd Lleol integredig yn 2009. Mae hyn yn bennaf oherwydd na fu cynnydd mewn cyllid.

Fel rhan o'r gwaith i gyflwyno Trefn Gyllid newydd ar gyfer y GIG, fel y nodwyd yn ein dogfen strategol 'Law yn Llaw at lechyd', mae adolygiad o ddyrannu adnoddau yn cael ei gynnal. Mae'r prosiect yn cynnwys:

- Datblygu fformiwlau dyrannu adnoddau y gellir ei ddefnyddio ar lefel Bwrdd lechyd Lleol ac i gefnogi Byrddau lechyd i ddosbarthu adnoddau ymhellach yn lleol.
- Sicrhau bod y pwysoliad anghenion yn adlewyrchu ffactorau perthnasol fel demograffeg ac anghydraddoldebau.

Bydd hwn yn brosiect sylweddol a fydd yn cymryd cryn amser i'w ddatblygu a'i roi ar waith yn llawn. O ganlyniad, mae'n debygol mai ym mlwyddyn ariannol 2015-16 y bydd y cam gweithredu cyntaf.

## **Ad-drefnu Gwasanaethau**

Disgwylir i'r holl Fyrddau lechyd ac Ymddiriedolaethau lunio a chymeradwyo cynllunio 3 blynedd cytbwys tymor canolig sy'n dangos cysylltiad rhwng rhannau allweddol y cynllun; atal ac asesiad o anghenion lechyd, ansawdd a diogelwch, perfformiad, gweithlu, newid gwasanaethau, a chyllid dros gyfnod o dair blynedd. O ran cyfalaf, mae'r cynlluniau yn y cynlluniau ad-drefnu wedi cael eu hadolygu ac mae cynlluniau ar waith lle cytunwyd arnynt. Mae'r rhain bellach yn cael blaenorriaeth o ran cymorth cyllid o'r gyllideb cyfalaf lechyd ar gyfer y dyfodol. Er enghraifft, ym Mwrdd lechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, mae cyllid o **£5m** newydd gael ei gymeradwyo ar gyfer gweliannau sylweddol i Ysbyty Tywyn yng Ngwynedd. Mewn perthynas â Rhaglen De Cymru, rydyn ni mewn trafodaeth reolaidd gyda chyrrf y GIG i nodi ac ymdrin â chyfleoedd buddsoddi wrth iddynt godi.

O ran refeniw, wrth i gynlluniau gael eu gwblhau, h.y. ar ôl y broses ymgynghori ac wrth i'r Byrddau lechyd Lleol symud ymlaen i'r cyfnod gweithredu, yna mae'n rhaid cofnodi'r effaith ar refeniw yn y cynlluniau integredig 3 blynedd. Disgwylir i'r holl gynlluniau ad-drefnu gynllunio newid mewn gwasanaethau sy'n gynaliadwy ac yn fforddiadwy drwy'r cyllid cyfredol.

## **Y gyllideb Gwasanaethau Cymdeithasol Plant**

Mae ailstrwythuro'r portffolios ar draws Llywodraeth Cymru yn golygu bod cyfrifoldeb dros Blant a Phobl Ifanc wedi symud i'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi. Mae hyn yn cynnwys nifer o feisydd polisi a chyllid allweddol, gan gynnwys Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, Gofal Plant, Chwarae, Hawliau Plant a'r Comisiynydd Plant. Cafodd bron pob un o'r cyllidebau eu pennu'n glir a'u symud ar draws y portffolios heb unrhyw broblem. Yr unig faes y bu'n rhaid ei drafod ymhellach oedd y cynllun Grant Mudiadau Plant a Theuluoedd, sydd â darpariaeth gyllidebol yn y ddau Brif Grŵp Gwariant. Mae mesurau wedi'u rhoi ar waith i sicrhau

synergedd ar draws y cynlluniau sydd newydd eu creu. Nid yw'r trosglwyddiad ar draws portffolios wedi amharu ar y gyllideb gwasanaethau cymdeithasol.

REVENUE BUDGET - Departmental Expenditure Limit					
Actions/BELs	2013-14 Supplementary Budget June 2013	2014-15 Indicative Plans Restated Final Budget	2014-15 Changes	2014-15 New Plans Draft Budget	2015-16 New Plans Draft Budget
BEL 0020 - LHBs, Trusts and Central Budgets	5,049,874	5,040,262	350,814	5,391,076	5,441,076
<b>Delivery of Core NHS Services</b>	<b>5,049,874</b>	<b>5,040,262</b>	<b>350,814</b>	<b>5,391,076</b>	<b>5,441,076</b>
BEL 0180 - NHS Primary Care	64,718	59,057	723	59,780	59,780
BEL 0682 - Other NHS Budgets	295,152	304,419	-155,796	148,623	143,625
BEL 0186 - Workforce (NHS)	49,676	50,201	-8,727	41,474	41,474
BEL 0257 - Information Central Budgets	31,293	31,293	-4,473	26,820	26,820
BEL 0265 - Patient Safety, Quality and Improvement	3,961	3,961	-10	3,951	3,951
BEL 0275 - Chronic Diseases	242	242	0	242	242
<b>Delivery of Targeted NHS Services</b>	<b>445,042</b>	<b>449,173</b>	<b>-168,283</b>	<b>280,890</b>	<b>275,892</b>
BEL 0140 - Education and Training	185,191	185,408	-2,537	182,871	182,871
BEL 0185 - Workforce Development Central Budgets	1,679	737	542	1,279	1,279
<b>Support Education &amp; Training of the NHS Workforce</b>	<b>186,870</b>	<b>186,145</b>	<b>-1,995</b>	<b>184,150</b>	<b>184,150</b>
BEL 0270 - Mental Health	7,531	7,531	-3,720	3,811	3,811
<b>Support Mental Health Policies &amp; Legislation</b>	<b>7,531</b>	<b>7,531</b>	<b>-3,720</b>	<b>3,811</b>	<b>3,811</b>
BEL 0286 - Hospice Support	7,028	7,028	-434	6,594	6,594
<b>Hospice Support</b>	<b>7,028</b>	<b>7,028</b>	<b>-434</b>	<b>6,594</b>	<b>6,594</b>
Substance Misuse	27,475	27,475	0	27,475	27,475
<b>Deliver the Substance Misuse Strategy Implementation Plan</b>	<b>27,475</b>	<b>27,475</b>	<b>0</b>	<b>27,475</b>	<b>27,475</b>
BEL 0250 - Public Health	76,607	77,216	3,742	80,958	80,958
<b>Sponsorship of Public Health Bodies</b>	<b>76,607</b>	<b>77,216</b>	<b>3,742</b>	<b>80,958</b>	<b>80,958</b>
BEL 0380 - Foods Standard Agency	3,442	3,442	-200	3,242	3,242
<b>Food Standards Agency</b>	<b>3,442</b>	<b>3,442</b>	<b>-200</b>	<b>3,242</b>	<b>3,242</b>
BEL 0232 - Targeted Health Protection & Immunisation	9,864	9,864	-150	9,714	9,714
<b>Deliver Targeted Health Protection &amp; Immunisation Activity</b>	<b>9,864</b>	<b>9,864</b>	<b>-150</b>	<b>9,714</b>	<b>9,714</b>
BEL 0231 - Health Improvement & Healthy Working	6,387	6,387	-1,416	4,971	4,971
<b>Promote Healthy Improvement &amp; Healthy Working</b>	<b>6,387</b>	<b>6,387</b>	<b>-1,416</b>	<b>4,971</b>	<b>4,971</b>
BEL 0280 - Inequalities in Health Fund	1,177	1,177	0	1,177	1,177
BEL 0400 - Welfare Food	8,504	8,504	0	8,504	8,504
<b>Tackle Health Inequalities &amp; Develop Partnership Working</b>	<b>9,681</b>	<b>9,681</b>	<b>0</b>	<b>9,681</b>	<b>9,681</b>
BEL 0230 - Health Emergency Planning	7,612	7,612	-900	6,712	6,712
<b>Effective Health Emergency Preparedness Arrangements</b>	<b>7,612</b>	<b>7,612</b>	<b>-900</b>	<b>6,712</b>	<b>6,712</b>
BEL 0260 - Research & Development	43,799	43,799	-434	43,365	43,365
<b>Develop &amp; Implement Research and Development for Patient &amp; Public Benefit</b>	<b>43,799</b>	<b>43,799</b>	<b>-434</b>	<b>43,365</b>	<b>43,365</b>
BEL 0420 - Grants in Support of Child & Family Services	4,551	4,551	0	4,551	4,551
BEL 0460 - Services for Children	5,766	5,766	0	5,766	5,766
<b>Children's Social Services</b>	<b>10,317</b>	<b>10,317</b>	<b>0</b>	<b>10,317</b>	<b>10,317</b>
BEL 0661 - Older Persons Strategy	1,031	1,031	0	1,031	1,031
BEL 0620 - Community Services for Adults	5,506	38,412	-32,906	5,506	32,506
BEL 0700 - National Strategy for Carers	4,295	4,295	-3,200	1,095	1,095
<b>Adult &amp; Older People</b>	<b>10,832</b>	<b>43,738</b>	<b>-36,106</b>	<b>7,632</b>	<b>34,632</b>
BEL 0920 - Social Services Strategy	15,943	15,943	378	16,321	16,321
<b>Social Services Strategy</b>	<b>15,943</b>	<b>15,943</b>	<b>378</b>	<b>16,321</b>	<b>16,321</b>
BEL 0582 - Care Council for Wales (Revenue)	10,372	10,372	-378	9,994	9,994
<b>Care Council for Wales</b>	<b>10,372</b>	<b>10,372</b>	<b>-378</b>	<b>9,994</b>	<b>9,994</b>
BEL 0662 - Older People Commissioner	1,715	1,715	0	1,715	1,715
<b>Older People Commissioner</b>	<b>1,715</b>	<b>1,715</b>	<b>0</b>	<b>1,715</b>	<b>1,715</b>
BEL 1268 - CAFCASS Cymru - Revenue	10,162	10,162	0	10,162	10,162
<b>CAFCASS Cymru Programmes</b>	<b>10,162</b>	<b>10,162</b>	<b>0</b>	<b>10,162</b>	<b>10,162</b>

Total Revenue - Health & Social Services	5,940,553	5,967,862	140,918	6,108,780	6,180,782
<b>CAPITAL BUDGET - Departmental Expenditure Limit</b>					
Actions	2013-14 Supplementary Budget June 2013	2014-15 Indicative Plans Restated Final Budget	2014-15 Changes	2014-15 New Plans Draft Budget	2015-16 New Plans Draft Budget
BEL 0020 - Trust and LHB Capital	226,375	224,275	45,171	269,446	219,446
BEL 0682 - Other NHS Budgets	1,000	1,000	-171	829	829
<b>Total NHS Delivery</b>	<b>227,375</b>	<b>225,275</b>	<b>45,000</b>	<b>270,275</b>	<b>220,275</b>
Deliver the Substance Misuse Strategy Implementation Plan	5,072	5,072	0	5,072	5,072
<b>Total Health Central Budgets</b>	<b>5,072</b>	<b>5,072</b>	<b>0</b>	<b>5,072</b>	<b>5,072</b>
Effective Health Emergency Preparedness Arrangements	4,492	4,492	0	4,492	4,492
<b>Total Public Health &amp; Prevention</b>	<b>4,492</b>	<b>4,492</b>	<b>0</b>	<b>4,492</b>	<b>4,492</b>
General Capital Funding	4,691	4,691	0	4,691	4,691
Care Council for Wales	20	20	0	20	20
<b>Total Social Services</b>	<b>4,711</b>	<b>4,711</b>	<b>0</b>	<b>4,711</b>	<b>4,711</b>
<b>Total Capital - Health &amp; Social Services</b>	<b>241,650</b>	<b>239,550</b>	<b>45,000</b>	<b>284,550</b>	<b>234,550</b>
<b>REVENUE BUDGET - Annually Managed Expenditure</b>					
Actions	2013-14 Supplementary Budget June 2013	2014-15 Indicative Plans Restated Final Budget	2014-15 Changes	2014-15 New Plans Draft Budget	2015-16 New Plans Draft Budget
NHS Impairments and Provisions	136,890	213,428	-47,333	166,095	165,400
<b>Total NHS Impairments and Provisions</b>	<b>136,890</b>	<b>213,428</b>	<b>-47,333</b>	<b>166,095</b>	<b>165,400</b>
<b>Total AME - Health &amp; Social Services</b>	<b>136,890</b>	<b>213,428</b>	<b>-47,333</b>	<b>166,095</b>	<b>165,400</b>
<b>Health &amp; Social Services</b>					
	2013-14 Supplementary Budget June 2013	2014-15 Indicative Plans Restated Final Budget	2014-15 Changes	2014-15 New Plans Draft Budget	2015-16 New Plans Draft Budget
Revenue DEL	5,940,553	5,967,862	140,918	6,108,780	6,180,782
Capital DEL	241,650	239,550	45,000	284,550	234,550
<b>Total DEL</b>	<b>6,182,203</b>	<b>6,207,412</b>	<b>185,918</b>	<b>6,393,330</b>	<b>6,415,332</b>
<b>Annually Managed Expenditure</b>	<b>136,890</b>	<b>213,428</b>	<b>-47,333</b>	<b>166,095</b>	<b>165,400</b>
<b>Total - Health &amp; Social Services</b>	<b>6,319,093</b>	<b>6,420,840</b>	<b>138,585</b>	<b>6,559,425</b>	<b>6,580,732</b>

# Eitem 10

## Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Lleoliad:	Ystafell Bwyllgora 1 – y Senedd
Dyddiad:	Dydd Mercher, 9 Hydref 2013
Amser:	09:05 – 11:23

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru  
National  
Assembly for  
Wales



Gellir gwyllo'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

[http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy\\_200000\\_09\\_10\\_2013&t=0&l=cy](http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_200000_09_10_2013&t=0&l=cy)

### Cofnodion Cryno:

#### Aelodau'r Cynulliad:

David Rees (Cadeirydd)  
Leighton Andrews  
Rebecca Evans  
William Graham  
Elin Jones  
Darren Millar  
Lynne Neagle  
Gwyn R Price  
Lindsay Whittle  
Kirsty Williams

#### Tystion:

Baroness Finlay of Llandaff  
Veronica Snow, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys  
Mark Drakeford, Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Gwenda Thomas, Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol  
Kevin Flynn, Cyfarwyddwr Cyflenwi a Brif Weithredwr GIG Cymru, Llywodraeth Cymru  
Albert Heaney, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru  
Dr Grant Robinson, Arweinydd Clinigol ar gyfer Gofal heb ei Drefnu

---

Staff y Pwyllgor:

Llinos Madeley (Clerc)  
Helen Finlayson (Ail Clerc)  
Sarah Sargent (Dirprwy Glerc)  
Sarah Hatherley (Ymchwilydd)

---

## TRAWSGRIFIAD

[Trawsgrifiad o'r cyfarfod.](#)

### 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

### 2 Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru): Cyfnod 2 – trefn y drafodaeth

2.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y drefn ystyried ar gyfer ei waith o graffu ar y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yng Nghyfnod 2.

### 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

3.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig.

### 4 Gofal heb ei drefnu – sesiwn frifio ar waith y grwp cynghori gweinidogol

4.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod gwaith y grŵp cynghori gweinidogol ar ofal heb ei drefnu â'r Farwnes Finlay o Landaf a Veronica Snow o Fwrdd Iechyd Addysgu Powys.

### 5 Gofal heb ei drefnu – bod yn barod ar gyfer gaeaf 2013/14

5.1 Atebodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, a'u swyddogion, gwestiynau'r Pwyllgor.

5.2 Cytunodd y Gweinidog i:

- ddarparu eglurhad o'r trefniadau i ddarparu brechiadau ffliw i blant drwy feddygon teulu neu'r ysgol, a'r oedrannau perthnasol pan roddir brechiadau o'r fath;
- darparu linc i'r adroddiad blynnyddol ynghylch perfformiad meddygon teulu yn erbyn y Fframwaith Canlyniadau Ansawdd perthnasol;
- darparu rhagor o wybodaeth am y polisi o gynnig triniaeth ddewisol y tu allan i GIG Cymru os nad oes gan y gwasanaeth y gallu i ddarparu oherwydd pwysau yn gysylltiedig â'r gaeaf; ac
- ystyried gwneud darn o waith i asesu'r effaith a gaiff achosion o oedi yng nghysyllt gofal dewisol ar ofal yng Nghymru heb ei drefnu.

5.3 Nododd y Dirprwy Weinidog y byddai'n darparu manylion i'r Pwyllgor ynghylch y prosiectau gofal integredig sy'n mynd rhagddynt yng Nghymru.

5.4 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog i:

- nodi y bydd yn dychwelyd at y pwnc hwn yn ystod gwanwyn/haf 2014 er mwyn:
  - (i) adolygu'r cynnydd yn ystod gaeaf 2013/14;
  - (ii) ystyried canfyddiadau'r ymchwiliad y bydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn ymgymryd ag ef yn fuan ynghylch *gofal heb ei drefnu a rôl gofal sylfaenol lleol*; ac
  - (iii) ystyried a oes angen cynnal ymchwiliad ehangach ynghylch gofal heb ei drefnu yn sgîl pwyntiau (i) a (ii).
- gofyn am ragor o wybodaeth ynghylch y modd yr ystyrir sicrhau bod capasiti yn y system iechyd a gofal cymdeithasol, ac nid ysbytai yn unig, mewn cyfnodau o alw mawr dros gyfnod y gaeaf; a
- gofyn am ragor o wybodaeth am y sail resymegol a fydd yn cael ei mabwysiadu i ddosbarthu'r £150 miliwn ychwanegol a ddyrannwyd i'r portffolio iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer blwyddyn ariannol 2013-14.

## 6 Papurau i'w nodi

6.1 Llythyr gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru

6a.1 Nododd y Pwyllgor y Llythyr gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru.

## 7 Blaenraglen waith:

7.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod ei flaenraglen waith ar gyfer y cyfnod ar ôl y Nadolig.

7.2 Cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymchwiliad byr yn fuan yn 2014 ynghylch caethiwed i feddyginaethau a geir ar bresgripsiwn a dros y cownter. Bydd y pwyllgor yn trafod papur cwmpasu ar gyfer yr ymchwiliad mewn cyfarfod yn y dyfodol.

7.3 Cytunodd y Pwyllgor i wahodd y Prif Swyddog Deintyddol i gyfarfod yn y dyfodol er mwyn:

- rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y prosiect peilot deintyddol; ac
- archwilio cwmpas ymchwiliad posibl yn y dyfodol i fynediad at ddeintyddiaeth y GIG.

Ein cyf: LF/GT/0975/13

David Rees AC  
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd  
a Gofal Cymdeithasol

7 Hydref 2013

Annwyl David,


Diolch am gyfarfod â mi ar 3 Hydref i drafod Adroddiad Cyfnod 1 eich Pwyllgor ar y broses o graffu ar Fil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Fe ofynnoch i mi ddarparu mwy o wybodaeth am fy ymatebion i'ch argymhellion. Fel y nodwyd yn ystod y cyfarfod, nid yw'n ofynnol i mi ymateb i'ch adroddiad fesul argymhelliaid, ond rwy'n gwerthfawrogi y bydd gwneud hynny'n ddefnyddiol i chi. I'r diben hwnnw, rwy'n amgáu tabl sy'n crynhoi fy rhesymau dros dderbyn neu wrthod eich argymhellion.

Fel y nodais yn fy llythyr dyddiedig 25 Medi, rwyf wedi derbyn argymhellion i wneud pum gwelliant y Llywodraeth. Yn ogystal, rwyf wedi derbyn argymhellion i wneud cyfres o Ddatganiadau Ysgrifenedig a Llafar er mwyn darparu rhagor o wybodaeth am faterion amrywiol, yn cynnwys:

- datganiad polisi pwysig ar Asesu a Chymhwysedd cyn diwedd mis Hydref;
- datganiad ar ofal cymdeithasol i blant a fydd yn cynnwys materion fel plant anabl – mae bwriad gennyl fwn yn ddatganiad blynnyddol;
- datganiad ar gyllid ar gyfer y Bil a fydd yn ategu'r datganiad a wnes eisoes a gohebiaeth i'r Pwyllgor Cyllid; a
- fy natganiad blynnyddol ar ddiogelu.

Gobeithio y byddwch chi'n cytuno fy mod wedi ymateb yn gadarnhaol yn gyffredinol i'ch adroddiad. Wrth reswm, y lle mwyaf priodol i mi ymateb yn fanylach i'r argymhellion yw yn ystod y drafodaeth Cyfnod 1 ar 8 Hydref, ac rwy'n edrych ymlaen at wneud hynny.

Yn gywir



**Gwenda Thomas AC**  
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol



2 Hydref 2013

At: David Rees, Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Annwyl David

**Craffu ar gyllideb ddraft Llywodraeth Cymru – pecyn cymorth i bwyllgorau i graffu ar gydraddoldeb**

Cyn i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ei chyllideb ddraft wythnos nesaf, rwy'n ysgrifennu i dynnu'ch sylw at becyn cymorth i graffu ar gydraddoldeb a ddatblygwyd ar gyfer yr Aelodau i'w helpu i ystyried cydraddoldeb yn ystod y broses o graffu ar y gyllideb.

Mae Tegwch Ariannol, sef y pecyn cymorth dwy dudalen hwn wedi'i gynllunio gan y Gwasanaeth Ymchwil mewn ymgynghoriad â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Rwyf hefyd wedi cysylltu â Chadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol a ymchwiliodd i ystyriaethau cydraddoldeb yng nghyllideb Llywodraeth Cymru yn 2012.

Bydd modd i aelodau'r bwyllgorau ddefnyddio'r pecyn cymorth hwn ochr yn ochr â'r papurau briffio a gaiff eu paratoi ar gyfer eu pwyllgor penodol hwy, a'r hyfforddiant a gânt hwy a'u staff cymorth gan bennaeth CIPFA.

Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1NA  
Cardiff Bay  
Cardiff  
CF99 1NA

Ffon/Tel: 029 2089 8164  
Ebost/Email: [gareth.price@wales.gov.uk](mailto:gareth.price@wales.gov.uk)

Gobeithio y bydd y pecyn hwn o gymorth i'ch Pwyllgor wrth iddo ymgymryd â'i waith craffu ariannol.

Yn gywir



Jocelyn Davies AC

Amg: Pecyn cymorth Tegwch Ariannol

# Tegwch Ariannol

Pecyn cymorth ar gyfer craffu ar ystyriaethau cydraddoldeb mewn gyllidebau

Nod y pecyn cymorth hwn yw helpu Aelodau i ystyried ffactorau cydraddoldeb wrth gyflawni eu gwaith craffu ariannol er mwyn sicrhau eu bod yn gwneud penderfyniadau ariannol teg. Mae'n ategu'r wybodaeth am egwyddorion cyffredinol ar gyfer craffu ariannol sy'n cael ei chyflwyno i Aelodau a'u Staff Cymorth gan y Gwasanaeth Ymchwil ac Angela Scott, penneth y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth.

## Pam y mae tegwch ariannol yn bwysig?

Mae gan Lywodraeth Cymru ddyletswydd cydraddoldeb statudol o dan Adran 77 o *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*, ac ynghyd â phob awdurdod cyhoeddus yng Nghymru, mae hefyd yn gaeth i ddyletswydd cydraddoldeb cyffredinol *Deddf Cydraddoldeb 2010*.

Yn unol â'r gyfraith, mae'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus ddangos eu bod wedi talu 'sylw dyledus' i nodau'r ddyletswydd cydraddoldeb wrth wneud penderfyniadau. Yn achos proses y gyllideb, mae hynny'n golygu y dylai Llywodraeth Cymru fod wedi:

- asesu effeithiau ei phenderfyniadau ariannol o ran cydraddoldeb yn ystod y **cyfnod ffurfiannol**, ac ystyried opsiynau a phrofi sefyllfaoedd gwahanol lle y bo angen;
- gwneud penderfyniadau ariannol yn seiliedig ar y **dystiolaeth** orau a oedd ar gael;
- bod yn agored ac yn dryloyw drwy **ymgysylltu** ymlaen llaw â'r rhai y byddai ei phenderfyniadau'n effeithio arnynt.

## Awgrymiadau am bethau i'w hystyried

Pan fyddant yn craffu ar benderfyniadau ariannol o ran cydraddoldeb, efallai y bydd y cwestiynau canlynol o ddefnydd i Aelodau:

## Sut y mae penderfyniadau o ran dyrannu'r gyllideb yn ymwneud â Chynllun Cydraddoldeb Strategol ac amcanion Llywodraeth Cymru?

Dylai'r broses o graffu ar gyllidebau gynnwys elfen o ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif am sut y bydd y dyraniadau arfaethedig yn bodloni amcanion ei **Chynllun Cydraddoldeb Strategol**, a hyrwyddo llais dinasyddion a phryderon y cyhoedd ynghylch effeithiau ar grwpiau penodol a ddiogelir.

## A nodwyd diben y cynnig ariannol yn glir, ac a ganfuwyd yr effeithiau posibl?

Bydd **asesiad** trylwyr o'r **effaith ar gydraddoldeb** yn dangos sut y bydd cynyddu neu leihau cyllid yn effeithio ar grwpiau gwahanol o bobl. Mae'n helpu i sicrhau y caiff **adnoddau eu targedu lle y mae'r angen mwyaf amdanyst**.

Mae asesiadau o'r fath hefyd yn ffordd o nodi problemau posibl, a gwneud ymyriadau bach **ataliol** yn gynnar sy'n golygu na fydd angen gwario arian ar ddatrysiau drud yn y dyfodol.

Pan fydd y Llywodraeth yn cynnig newid dyraniadau, dylai asesiad o'r effeithiau ar gydraddoldeb nodi'r rhesymau dros y newidiadau dan sylw, yr effaith ddisgwylledig ar grwpiau a ddiogelir a'r canlyniadau y bwriedir eu cyflawni.



Mae hefyd yn bwysig ystyried y cysylltiadau posibl rhwng cynigion ariannol unigol - gallai cyfres o newidiadau i bolisiau neu wasanaethau gwahanol gael effaith gronnol ar grwpiau penodol a ddiogelir.

## **A yw'r asesiad effaith wedi ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael? A oes unrhyw fylchau yn y data sydd ar gael, ac os felly sut yr eir i'r afael â hyn?**

Dylai awdurdodau cyhoeddus ystyried y wybodaeth a'r gwaith ymchwil sydd eisoes ar gael yn lleol ac yn genedlaethol. Dylai'r asesiad o effaith ar gydraddoldeb gael ei ategu gan wybodaeth gyfredol a dibynadwy am y gwahanol grwpiau a ddiogelir y mae'r cynnig yn debygol o effeithio arnynt.

Nid yw diffyg gwybodaeth yn rheswm digonol i ddod i'r casgliad na cheir unrhyw effeithiau.

## **A nodwyd effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl?**

Nid yw'n ddigon nodi y bydd polisi yn effeithio ar bawb fel ei gilydd; dylid archwilio'r dystiolaeth sydd ar gael yn drylwyr i weld a yw'r cynnig yn fwy tebygol o effeithio ar rai grwpiau penodol a ddiogelir na rhai eraill. Nid yw trin pawb yn gyfartal bob amser yn ddigon ynddo'i hun i sicrhau cydraddoldeb o ran canlyniadau; weithiau bydd angen i awdurdodau gymryd camau gyda grwpiau penodol i fynd i'r afael ag anfanteision hysbys neu ddiwallu anghenion gwahanol.

## **A lwyddwyd i ymgysylltu'n effeithiol â'r rhai y mae'r cynnig yn debygol o effeithio arnynt?**

Mae ymgysylltu â phobl yn rhan hollbwysig o'r broses o asesu effaith ar gydraddoldeb. Nid oes gofyniad penodol i ymgysylltu â phobl o dan y ddyletswydd cydraddoldeb, ond bydd gwneud hynny'n helpu i wella'r wybodaeth am gydraddoldeb a ddefnyddir i ddeall effeithiau posibl polisiau ar wahanol grwpiau a ddiogelir. Nid oes unrhyw un mewn sefyllfa well i ragweld sut y gall newidiadau arfaethedig effeithio, er enghraift, ar bobl anabl, na'r rhai sy'n anabl eu hunain.

## **Beth sydd wedi newid o ganlyniad i'r asesiad effaith? A oes cynlluniau i liniaru ar unrhyw effeithiau negyddol?**

Os bydd effaith negyddol bosibl wedi'i nodi yn yr asesiad, dylid bod wedi ystyried sut i leihau neu liniaru ar yr effaith hon, gan baratoi cynllun gweithredu ategol yn nodi'r sawl sy'n gyfrifol am gamau penodol ac amserlen ar gyfer eu rhoi ar waith. Mae'n hanfodol gwneud hynny i leihau'r tebygolrwydd y gallai penderfyniadau anodd y mae angen eu gwneud arwain at anghydraddoldeb, neu achosi i anghydraddoldeb barhau.

## **Beth yw'r cynlluniau o ran monitro effeithiau a chanlyniadau gwirioneddol y cynnig? Beth yw'r amserlen, a pha drefniadau sydd ar waith i ymateb i unrhyw bryderon? A oedd modd dangos bod canlyniadau wedi gwella?**

Er y gall asesiadau effaith helpu i roi syniad o'r ffordd y mae cynnig yn debygol o effeithio ar gymunedau a grwpiau gwahanol, nid oes modd gwybod mewn gwirionedd beth fydd effaith lawn unrhyw benderfyniad tan iddo gael ei gyflwyno. Felly, mae'n bwysig cael trefniadau cadarn ar gyfer adolygu gwir effaith unrhyw gynigion, a gallu dangos bod canlyniadau wedi gwella drwy broses o gyflwyno adroddiadau.

Paratowyd y papur hwn gan y Gwasanaeth Ymchwil a'r Gwasanaeth Pwyllgorau, â chymorth y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

